AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# Golygon y Dyfodol



## PAPUR YMGYNGHORI

*Bydd yr ymarfer ymgynghori hwn yn chwarae rhan allweddol yn ailddiffinio agwedd AOCC tuag at arddangos gweithiau celfyddyd y mae'n eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ran y genedl.*

CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

# GOLYGON Y DYFODOL

## PAPUR YMGYNGHORI

*Bydd yr ymarfer ymgynghori hwn yn chwarae rhan allweddol yn ailddiffinio agwedd AOCC tuag at arddangos gweithiau celfyddyd y mae'n eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ran y genedl.*

**Dylid dychwelyd ymatebion at**
Michael Tooby, Cyfarwyddwr, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NP

neu drwy ebost at celf-atebiad@aocc.ac.uk

# CYNNWYS

Rhagair

1. Cyflwyniad i'r ymarferiad ymgynghori v

2. Golygon y dyfodol: Rhan 2 yr ymgynghoriad

3. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Atodiadau

Atodiad
Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Rhan 1 yr ymgynghoriad

Atodiad 2
Canlyniadau allweddol Rhan 1: crynodeb o'r prif themâu a phynciau

Atodiad 3
Gwybodaeth gefndir am AOCC a gyflenwyd i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Rhan 1

# RHAGAIR

Ers nifer o flynyddoedd bu cryn drafod cyhoeddus (a groesawyd) ynghylch y modd y mae AOCC yn arddangos ei gasgliadau diwydiannol a'i gasgliadau celfyddyd o fewn yr amgueddfeydd y mae'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Mae rhan o'r ddadl wedi troi o gylch y syniad fod yr Amgueddfa i raddau helaeth yn adnodd i'r rheiny sy'n gallu ei fforddio. Yn fwy diweddar, gwelwyd pryder gwleidyddol ynghylch caffaeledd casgliadau'r Amgueddfa y tu allan i furiau'r wyth safle o gwmpas Cymru y mae AOCC yn eu gweithredu ar hyn o bryd.

Dros y pedair blynedd diwethaf bu AOCC yn gwrando ar y ddadl hon, ac mewn ymgynghoriad â'r budd-ddeiliaid rheiny sydd â diddordeb perthnasol, gweithredodd i wella'i berfformiad. Ym 1988 cyhoeddwyd ein hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar y Strategaeth Ddiwydiannol. O ganlyniad rydym wedi caffael Pwll Mawr, wedi sefydlu partneriaeth unigryw â Dinas a Sir Abertawe i ddatblygu amgueddfa ddiwydiannol a morwrol newydd sbon, wedi ail-ddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yng Ngwynedd a nawr yn datblygu Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân Cymru yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhaglen hon yn costio £40 miliwn a'n bwriad yw y bydd wedi'i chwblhau yn 2005.

Mae'r canfyddiad mai adnodd sydd yn bennaf ar gael i'r cyfoethog yw AOCC yn un sy'n ein pryderu'n fawr. Ers sawl blwyddyn bu Cyngor AOCC yn pwyso am newidiadau yn y deddfau treth fyddai'n sicrhau fod dychwelyd i fynediad am ddim yn fforddiadwy. Yn 2001 gwnaeth y Canghellor y newid hwnnw ac ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith drwy sicrhau ariannu i hwyluso mynediad am ddim i bob un o'r wyth amgueddfa genedlaethol. Mae'r Amgueddfa yn hynod ddiolchgar am yr ymateb buan hwn; mae mwy o bobl yn ymweld â'n hamgueddfeydd nag erioed.

Mae hygyrchedd y casgliadau y tu allan i furiau'r wyth amgueddfa yn bryder arall yr ydym yn ei adnabod ac yn ceisio ymateb iddo. Fel gyda phob datblygiad, er mwyn creu 'Amgueddfa Genedlaethol heb Furiau', mae angen adnoddau. Hyd yma, rydym wedi bod yn llai llwyddiannus yn denu cyllid i'r Rhaglen Bartneriaeth ac i ddatblygu ardaloedd gwefan rhyngweithiol yn seiliedig ar gasgliadau nag y buom gyda datblygiadau eraill.

Fodd bynnag mae cynnydd yn digwydd ar y ddau beth. Ar hyn o bryd mae dros 2000 o eitemau neu grwpiau o eitemau gennym ar fenthyg o fewn Cymru. Rydym hefyd yn benthyca y tu allan i Gymru.

Mae'n gwefan yn derbyn 481,193 o 'ymweliadau' y flwyddyn; ar hyn o bryd mae 10.6% o'r casgliadau ar gael yn electroneg ac erbyn diwedd 2002 bydd rhagor yn cael eu hychwanegu. Trafodir mynediad real drwy fenthyciadau a mynediad rhithiol drwy'r Rhyngrwyd yn y papur ymgynghori hwn.

Daw hyn â mi at gwestiwn dyfodol ein polisi ar gyfer arddangos gweithiau celfyddyd yng Nghymru, a phwrpas y papur ymgynghori hwn 'Golygon y Dyfodol'.

Mae Cyngor AOCC yn cydnabod fod yr holl fater yn gymhleth ac nad oes un ateb i bob pryder. Rydym hefyd yn cydnabod fod ymrwymiadau presennol yn golygu nad oes modd ystyried unrhyw estyniad i'r Oriel Genedlaethol bresennol, ar ei safle presennol, neu mewn man arall yng Nghymru cyn gweithredu'r Strategaeth Ddiwydiannol yn llawn yn 2005.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni fod llawer y gallwn ni ei wneud ar raddfa fach ac mewn ffordd raddol i wella ein gwasanaeth i'r cyhoedd. O'r cyngor a dderbyniwyd gennym yn Rhan 1 yr ymgynghoriad hwn rydym wedi distyllu pedwar cynnig yr hoffem gael eich barn arnynt.

2007 yw canmlwyddiant sefydlu AOCC a 2011 yw canmlwyddiant gosod y garreg sylfaen. Os yw'r Amgueddfa i fod mewn sefyllfa lle gall estyn ei Orielau Cenedlaethol ar gyfer y ganrif nesaf, rhaid dechrau cynllunio yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r pumed cynnig felly yn cynnig tri dewis ar gyfer datblygiad o'r fath ac fe fyddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y rhain.

Hoffwn ddiolch i chi am roi eich amser i'r papur ymgynghori hwn. Mae'n bwysig i ni ein bod yn ei gael yn iawn fel ag y mae'n bwysig i chi fod eich plant a'ch wyrion yn para i gael mynediad i'r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol y gallant fod yn falch ohonynt.

**Mathew Prichard, Llywydd**

# 1. CYFLWYNIAD I'R YMARFERIAD YMGYNGHORI

**Ym mis Chwefror 2001, cychwynnodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) ar ymarferiad ymgynghori pwysig â'r bwriad o ddarganfod barn y cyhoedd, yn ogystal ag arbenigwyr celfyddyd ar gyfeiriadau'r dyfodol ar gyfer arddangos casgliadau celfyddyd AOCC yng Nghymru a thu hwnt.**

**Rhan 1** y broses oedd ymgynghori ag arbenigwyr celfyddydol o Brydain ac Iwerddon. Cyfrannodd artistiaid, haneswyr celfyddyd a gweinyddwyr, curaduron, addysgwyr, darlledwyr ac eraill drwy nifer o grwpiau ffocws. Ym mis Mai 2001 cynhaliwyd cyfarfod agored i drafod y materion allweddol a nodwyd gan y grwpiau hyn. Mynychodd 105 o bobl y cyfarfod, yn cynrychioli amrediad eang o gefndiroedd oedd yn cynnwys llawer o ddefnyddwyr dydd i ddydd yr Amgueddfa. Ceir rhestr lawn o'r sawl a wahoddwyd i'r grwpiau ffocws ac i'r cyfarfodydd agored yn Atodiad 1.

Cadeiriwyd a threfnwyd yr holl sesiynau yn annibynnol gan David Clarke o David Clarke Associates (DCA). Daeth staff AOCC yno fel sylwebwyr gan gynorthwyo ac egluro ffeithiau ond, yn bwysig, heb geisio dylanwadu ar gyfeiriad y ddadl.

Cyflwynir canlyniadau allweddol Rhan 1 yn Atodiad 2; gellir gweld adroddiad llawn ar wefan AOCC ar www.aocc.ac.uk. Mae'n bwysig fod yr ymgynghorwyr presennol yn deall mai barn amrediad eang o fudd-ddeiliaid â diddordeb proffesiynol a phersonol yn y Casgliadau Celfyddyd Cenedlaethol, y staff a'u harbenigedd sydd yn yr adroddiad hwn. Bu eu mewnbwn i gamau cynnar yr ymarferiad hwn yn frwdfrydig, yn gadarnhaol ac yn hynod o werthfawr. Golygodd eu haelioni â'u hamser a'u harbenigedd ein bod wedi cael trafodaeth fywiog a meddwl mentrus, gyda phum cynnig yn deillio o'r broses. Mireiniodd AOCC y rhain a'u cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf ac i gyfarfod o gyfarwyddwyr diwylliant yr awdurdodau lleol ym mis Hydref 2001.

Ein bwriad nawr yw ymgynghori mor eang â phosibl, o fewn a thu hwnt i Gymru. Dymunwn glywed barn ymwelwyr presennol ac ymwelwyr y dyfodol. Rydym yn awyddus i glywed barn yr holl wleidyddion etholedig sydd â diddordeb yng Nghymru. Mae llawer o ddefnyddwyr proffesiynol wyth amgueddfa AOCC wedi cyfrannu i Rhan 1. Fodd bynnag rydym yn dal i ddymuno clywed eu barn a barn eu cydweithwyr – pa un a oes ganddynt ddiddordeb proffesiynol mewn celfyddyd ai peidio.

**Wrth ymateb, mae'n bwysig cofio y gallai fod yn bosibl i gael cyflwyniad graddol o gynigion 1 i 4 dros y 5 mlynedd nesaf. Yn wir, mae dau gynnig – partneriaethau a mynediad rhithiol neu wefan – yn adeiladu ar waith y mae AOCC eisoes yn ei wneud. O ystyried ymrwymiadau cyfredol i'r Strategaeth Ddiwydiannol, mae cynnig 5, sy'n cynnig tri dewis ar gyfer datblygiad cyfalaf mawr yn obaith tymor hir. Byddai 2007, canmlwyddiant AOCC, yn ymddangos yn ddyddiad addas ar gyfer menter o'r fath.**

## 2. GOLYGON Y DYFODOL: YMGYNGHORIAD RHAN 2

**Yn dilyn Rhan 1, (Atodiad 2) cychwynnodd AOCC ar ymgynghoriad mewnol eang a'r canlyniad oedd y dewisiadau canlynol. Mae'n bwysig bod y syniadau a gyflwynir yma yn denu sylwadau cyhoeddus llawn a bod beirniadaeth adeiladol a sylwadau cefnogol yn cael eu cynnig yn rhwydd ar y pynciau trafod a'r cynigion. Gofynnwn i chi ystyried pob un o'r cynigion yn ofalus ac ymateb i'r cwestiynau a osodwyd, neu gynnig eich sylwadau eich hun. Dyddiad terfynol derbyn ymatebion yw 31 Gorffennaf 2002.**

**Goblygiadau adnoddau**

Byddai angen symiau rhesymol o gyllido cyfalaf ar gynigion 1 - 4 i'w sefydlu, a chefnogaeth refeniw i gwrdd â chostau rhedeg. Yn amlwg byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar Gynnig 5. Byddai gallu AOCC i ddilyn un neu fwy o'r cynigion, yn ogystal â graddfa ac amseru unrhyw ddatblygiadau o'r fath felly yn dibynnu ar lefel yr ariannu fyddai ei angen a llwyddiant AOCC yn dod o hyd i'r arian hwn o'r sectorau cyhoeddus, masnachol a phreifat.

Eisoes mae AOCC yn ymrwymedig i ddatblygu cynlluniau peilot at gyfer **CYFOETH CYMRU GYFAN – SHARING THE TREASURES**, ac mae'n arbennig o gefnogol i arweiniad Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro mewn menter partneriaethol i greu canolfan newydd i gelfyddyd a'r amgylchedd yn Nhyddewi, fydd hefyd yn cynnwys casgliad Graham Sutherland. Yn fwyaf pwysig, rhaid i AOCC estyn ei Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw, oherwydd heb honno, bydd y mentrau hyn ag eraill yn methu.

Gwelwyd cefnogaeth gref i gaffaeliad a datblygiad y ganolfan hon yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddiwydiannol a gynhaliwyd ym 1998. Mae'r hyn sydd yn ei le yn ddigonol i gwblhau'r gwaith yn unig. Fodd bynnag mae digon o dir y gellid estyn arno ac adeiladu canolfan gasgliadau i AOCC fyddai hefyd yn gallu lleddfu problemau storio a chadwraeth amgueddfeydd eraill yng Nghymru. Mae'r angen i sicrhau estyniad buan i'r Ganolfan Gasgliadau yn gyfyngiad sy'n gyffredin i'r holl gynigion, ag eithrio cynigion 2 a 3 o bosibl. Gan ei fod yn anhepgorol nid yw wedi'i restru fel cyfyngiad o dan unrhyw un o'r pum cynnig.

Ni chynhwysir costau manwl ar gyfer y dewisiadau yn y ddogfen hon, er fod rhai ffigurau amcangyfrif bras iawn yn cael eu rhoi ar gyfer cynnig 5. Ein hamcan yw darganfod sut rydych chi'n teimlo y dylai AOCC ddatblygu nawr i gwrdd â'ch anghenion chi. Gyda pheth nawdd ychwanegol, y tebygrwydd yw y gellid cwblhau cynigion 1-4 erbyn 2005; mae cynnig 5 lawer yn fwy hir dymor ac ni fyddid yn cychwyn arno hyd nes i'r Strategaeth Ddiwydiannol £40m gael ei gwblhau. Y cam nesaf fydd comisiynu astudiaethau dichonolrwydd amgen a chynlluniau costau manwl.

Nid yw'r cynigion a osodir yn y ddogfen o reidrwydd **yn ddewisiadau naill ai/neu**. Er hyn, byddai angen eu graddoli a'u gwneud yn rhan o gynlluniau strategol AOCC lle a phryd y bo'n addas.
**Gofynnwn i chi gofio hyn wrth i chi ystyried y gwahanol ddewisiadau, ac wrth gynnig eich ymateb.**

# CYNNIG 1: Datblygu Rhaglen Bartneriaeth bresennol AOCC er mwyn sefydlu rhwydwaith o safleoedd o gwmpas Cymru sy'n cyfnewid ac yn arddangos celfyddyd gan greu 'oriel genedlaethol heb furiau'

Yn **CYFOETH CYMRU GYFAN - SHARING THE TREASURES**, mae AOCC yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i ddarparu rhwydwaith gwell o lawer o arbenigedd yn yr holl ddisgyblaethau. Bydd y cynnig hwn yn galluogi AOCC i ganolbwyntio nawr ar **arddangos y gorau o blith celfyddyd hanesyddol, modern a chyfoes.**

Byddai orielau partneraethol yn datblygu perthynas gydag AOCC ac, yr un mor bwysig, yn adeiladu ar eu perthynas â'i gilydd. Byddai rhwydwaith o'r fath, a fyddai'n cefnogi casgliadau celfyddyd y genedl yn creu arbenigedd mewn ymchwilio, caffael, benthyca a chyflwyno gweithiau celfyddyd, drwy fynd â'r casgliadau cenedlaethol allan o furiau AOCC yn ogystal â dod â thrysorau cenedlaethol eraill i mewn.

Byddai safleoedd partneriaethol yn gallu cyflwyno arddangosfeydd arwyddocaol. Gallent fod yn safleoedd arddangos yn unig, neu fod yn berchen ar gasgliadau eu hunain. Mae'n debygol mai nifer o rhwng pedair a saith o bartneriaethau o'r fath fyddai'n fwyaf effeithiol. Byddai'r pwyslais ar safleoedd hyblyg a allai weithredu fel darparwyr allweddol i fynediad i gelfyddyd gyfoes, fel y trafodwyd yn Rhan 1 (Atodiad 2). Byddai partneriaeth ag AOCC hefyd yn hwyluso defnydd ehangach o'r casgliad cenedalethol o gelfyddyd hanesyddol a modern i'w gweld mewn cyd-destunau rhanbarthol priodol.

Byddai'r partneriaid wedi'u lleoli mewn **amrediad o leoliadau**, er mwyn darparu **mynediad i gelfyddyd o fewn uchafswm teithio o un awr o unrhyw gymuned** yng Nghymru ac i annog agweddau cydweithredol lleol i gyflwyno casgliadau cenedlaethol i gynulleidfaoedd rhanbarthol.

Byddai'r cynllun yn cynnig cyfleon ar gyfer buddsoddiad cyfalaf wedi'i gyd-gysylltu. Byddai gweithio gydag AOCC yn helpu'r partneriaid hyn i gael arian er mwyn cyflawni eu gobeithion hwy ar gyfer buddsoddi mewn eiddo, staff a strwythurau cynnal. Byddai hefyd yn gwneud y mwyaf o'r potensial buddsoddi yn y rhanbarthau heb orgyffwrdd â mentrau cystadleuol eraill.

A derbyn bod Canolfan Gasgliadau AOCC wedi'i datblygu i gynnal rhaglen fenthyciadau ehangach, cost refeniw blynyddol tebygol agwedd gelfyddydol estynedig **CYFOETH CYMRU GYFAN - SHARING THE TREASURES** i AOCC fyddai tua £80K. Yn Adroddiad diweddar Pratley i Gyngor Celfyddydau Cymru, amcangyfrifwyd y byddai cost ariannu'r partneriaid hyd at £600k y flwyddyn.

## Buddiannau posibl

- ▲ Buddsoddiad wedi'i gyd-gysylltu i ddatblygu isadeiledd diwylliannol o gwmpas Cymru i bobl Cymru
- ▲ Cyfleon ariannu realistig o amrywiaeth o ffynonellau
- ▲ Yn adeiladu ar arbenigedd a gwasanaethau lleol sy'n bodoli eisoes mewn curadu a marchnata, ac yn cynnwys dewisiadau ar gyfer ailadeiladu o fewn cynlluniau datblygu lleol
- ▲ Mynediad ehangach i gelfyddyd hanesyddol a modern y genedl mewn cyd-destunau lleol gwahanol

### Cyfyngiadau posibl

- ▼ Mae rhai rhwystrau cyfreithiol (e.e. telerau cymynroddion a rhoddion) i symud rhai casgliadau o Gaerdydd
- ▼ Mae angen cyllid cyfalaf i ddod â safleoedd lleol i safonau derbyniol (ee diogelwch, amodau amgylcheddol, dehongli)
- ▼ Mae angen cynnydd yn y cyllid refeniw parhaus i sicrhau mynediad deallusol gwerthfawr mewn safleoedd lleol (e.e. addysg, gwaith allanol)
- ▼ t Yn cynnwys gwasgariad prif weithiau o'r hyn sy'n gasgliad gweddol fychan

## Cynnig 1: Cwestiynau

? ? A yw datblygu CYFOETH CYMRU GYFAN - SHARING THE TREASURES i ddarparu rhwyd waith o safleoedd a all gynnig arddangosfeydd newidiol o gelfyddyd yn apelio atoch chi? A fyddech chi yn annog eich awdurdod lleol i weithio gydag AOCC ac i fuddsoddi'r cyfalaf a'r ariannu refeniw angenrheidiol mewn darpariaeth o'r fath yn eich ardal chi?

? ? Sut allai partneriaid rhanbarthol gyfrannu at arbenigedd a rhaglenni AOCC mewn dull fyddai'n fuddiol i bawb?

? ? Ydych chi'n ystyried y dylai safleoedd lleol ganolbwyntio ar gelfyddyd gyfoes, neu gymysgedd o gelfyddyd gyfoes, modern a hanesyddol?

## CYNNIG 2: Amlhau mynediad i gasgliadau'r genedl fel adnodd ymchwil

Casgliad Rhan 1 (Atodiad 2) oedd y gellid cyflawni hyn mewn dwy ffordd.

Y gyntaf yw drwy gynyddu'r buddsoddiad mewn TGCh, digideiddio delweddau a chefnogi ymchwil. Yna gellid asesu casgliadau yn electroneg gan amrediad o garfannau a chynulleidfaoedd ar draws y byd. Gallai'r platfform i fenter o'r fath fod ar ffurf '**oriel genedlaethol ar-lein' ddigidol**. Gallai hyn adeiladu ar y rhaglen ddigideiddio sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn AOCC. Byddai'n cyflwyno delweddau o safon uchel, gwybodaeth sylfaenol ar hoff artistiaid neu gyfnodau a'r darganfyddiadau ymchwil diweddaraf i ddefnyddwyr, ar lefelau gwahanol o ddiddordeb. Gellid sefydlu hyn ar y cyd â sefydliadau eraill sy'n darparu gwybodaeth ddigidol ar hyn o bryd.

Yn ail awgrymwyd y dylai AOCC greu partneriaeth â'r sector addysg uwch i greu canolfan genedlaethol ar gyfer astudio celfyddyd weledol Cymru, i ddarparu adnoddau ymchwil gwell i eraill yn ogystal â chreu gwybodaeth newydd o fewn AOCC.
.

## Buddiannau posibl

- ▲ Yn cynnig mynediad addysgiadol byd-eang i gasgliadau cenedlaethol Cymru
- ▲ Yn creu ffyrdd newydd o gyflwyno a thrafod celfyddyd e.e. gosod gweithiau nesaf at ei gilydd a fyddai, oherwydd eu natur ddiriaethol, fel arfer yn cael eu cadw ar wahân – fel pensaernïaeth, ffilm, cerddoriaeth a hanes llafar
- ▲ Gellid ei ddefnyddio fel adnodd rhyngrwyd o bell, neu gellid ei gyflwyno ar y safle mewn orielau

fel cefnogaeth i gyflwyno a dangos ‘y peth go iawn’

- ▲ Byddai canolfan ymchwil yn darparu ffocws ar gyfer astudiaeth celfyddyd weledol yng Nghymru
- ▲ Gellid dechrau ar y gwaith cyn datblygu’r Ganolfan Gasgliadau

## Cyfyngiadau posibl

- ▼ Nid yw’n cynnig mynediad i’r ‘peth go iawn’
- ▼ Byddai angen buddsoddiad cychwynnol sylweddol i gael deunydd safonol addas ar-lein yn gyflymach nag y mae adnoddau yn caniatáu ar hyn o bryd
- ▼ Byddai angen buddsoddiad parhaus i gynnal y lefelau priodol o dechnoleg ac ymarfer gorau mewn amgylchedd sy’n datblygu’n gyflym
- ▼ Byddai goblygiadau cost cyfalaf i ddatblygu canolfan ymchwil
- ▼ Byddai angen cynnydd mewn ariannu refeniw parhaus i sicrhau mynediad gwerthfawr o bell (e.e. cynnwys addysgiadol)

## Cynnig 2: Cwestiynau

? ? Ydych chi’n cytuno y byddai oriel genedlaethol ddigidol ar-lein yn ddefnyddiol yn gyffredinol? Fyddech chi’n ei defnyddio? I beth? Pa mor aml?

? ? A fyddai adnodd o’r fath yn gweithio’n dda fel rhan ar ei ben ei hun o AOCC, neu a ddylai fod yn ymwneud â rhwydwaith ehangach o sefydliadau?

? ? A fyddai canolfan genedlaethol ar gyfer astudio celfyddyd weledol a chynllunio yng Nghymru yn ddefnyddiol yn gyffredinol? Disgwylir y byddai’r ganolfan yn hwyluso mynediad i’r gweithiau eu hunain yn ogystal ag i lyfrau, archifau a staff arbenigol. Lle ydych chi’n credu y dylid lleoli canolfan o’r fath? A fyddech chi’n ei defnyddio? Pa mor aml?

# CYNNIG 3: Gosod mwy o bwyslais ar hybu ‘oriel genedlaethol’, yng Nghymru a thu hwnt

Mae’r **Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol** yn unigryw ymysg Orielau Cenedlaethol y DU yn cyflwyno’i gasgliadau mewn cyd-destun corfforol sy’n cysylltu creadigrwydd dyn a menyw i’w hanes, eu gwreiddiau a’u hamgylchedd. Ysywaeth, nid yw’n hawdd bob amser i hyrwyddo a marchnata Celfyddyd yn effeithiol o fewn amgueddfa rhyngddisgyblaethol.

Tra bydd canlyniad yr ymgynghori yn dylanwadu ar frandio’r Oriel Genedlaethol yn y dyfodol, mae llawer y gellid ac y dylid ei wneud yn y tymor byr, gyda’r adnoddau cyfredol, **i wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cyhoeddus o gelfyddyd o fewn AOCC.**

## Buddiannau posibl

- ▲ Gwell ymwybyddiaeth yn rhyngwladol o gelfyddyd Cymru yn ogystal â’r daliadau arbennig o gain o gelfyddyd ryngwladol sydd yng Nghymru
- ▲ Marchnata mwy effeithiol i grwpiau diddordeb arbennig, o ddefnyddwyr addysgiadol i farchnadoedd twristaidd a allai gynyddu cyfanswm nifer yr ymwelwyr
- ▲ Proffil uwch i Gymru fel cenedl ddiwylliedig a Chaerdydd fel prif ddinas diwylliant
- ▲ Byddai codi proffil y casgliad yn cynyddu’r cyfleon masnachol, a thrwy hynny gallu AOCC i greu refeniw

▲ Nid yw'n dibynnu ar ddatblygu'r Ganolfan Gasgliadau

## Cyfyngiadau posibl

▼ Potensial i ddrysu'r marchnata fyddai yn ei dro yn cael effaith andwyol ar niferoedd ymwelwyr drwy fynd y tu hwnt i farchnata'r safleoedd amlddisgyblaethol, yn benodol yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ym Mharc Cathays
▼ Bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn cynyddu'r gyllideb farchnata heb effeithio'n andwyol ar feysydd gwaith eraill, ac i uwchraddio orielau presennol yn AOG
▼ Gallai olygu bod meysydd casglu eraill yn cael eu hanwybyddu, eu tanwerthu a'u tanddefnyddio

## Cynnig 3: Cwestiynau

? Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r farn fod natur amlddisgyblaethol AOCC ac yn benodol yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol wedi arwain at ddarlun dryslyd ac wedi amharu ar farchnata effeithiol o gyfoeth casgliadau celfyddydol a chasgliadau eraill AOCC?

? Oes yna fuddiannau i holl ddisgyblaethau AOCC, yn arbennig y rhai a gyflwynir yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, o gael mwy o wahaniaeth rhwng yr elfennau 'Amgueddfa' ac 'Oriel'?

? Ydych chi'n cytuno y dylai AOCC ymgymryd ag ymchwil i ganfyddiadau ymwelwyr sy'n archwilio pa mor werthfawr (neu fel arall) iddyn nhw yw'r croes-beillio rhwng disgyblaethau a safleoedd?

# CYNNIG 4: Datblygu cyflwyniadau thematig yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol sy'n ailddehongli casgliadau celfyddyd cenedlaethol Cymru

Ar hyn o bryd, trefnir casgliadau ac arddangosfeydd yn AOG yn gyffredinol gronolegol, gan ddilyn 'cyfnodau'. Cyflwynir celfyddyd Gymreig o fewn y cyd-destun rhyngwladol hwn. Mae dau ofod sy'n cymryd agwedd thematig newidiol ac un arall sydd wedi'i bennu yn benodol ar gyfer cyflwyniadau newidiol o 'Gelfyddyd yng Nghymru'. Mae'r tair oriel hyn wedi derbyn canmoliaeth uchel a nifer fawr o ymwelwyr, ac felly y gobaith yw datblygu themâu sy'n croesdorri yn rhagor o'r orielau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Dadleuwyd mai perygl hyn yw fod cyd-destun Cymreig llawer o'r casgliad yn aros yn ddi-esboniad, ac felly bod celfyddyd Cymru yn cael ei chysgodi gan gelfyddyd ryngwladol. Yr **her felly yw cyflwyno'r casgliad celfyddyd, yn Gymreig ac yn rhyngwladol, mewn modd sy'n unigryw ac yn addas i Gymru.**

## Buddiannau posibl

▲ Byddai rhagor o'r casgliadau yn cael eu cylchdroi allan o'r storfa gan gynnig gwell cyfleon i ddangos gweithiau modern a hanesyddol
▲ Byddai'n cynnig sgôp i fenthyca gweithiau o fannau eraill
▲ Byddai diddordeb mwy cyffredinol yn cael ei greu yn yr arddangosfeydd wrth i orielau thematig croesdoriadol gynnig amrywiaeth o lwybrau mynediad deallusol, gan wneud i gelfyddyd ymddangos yn llai o bwnc elît
▲ s Byddai'r ganran sylweddol o gelfyddyd Gymreig sydd ar hyn o bryd ar waliau'r orielau yn cael proffil

llawer uwch, heb fod ar y cyrion

## Cyfyngiadau posibl

- ▼ Goblygiadau cost cyfalaf rhesymol i newid yn yr orielau
- ▼ Wrth gael cynnydd yn yr angen am weithiau i'w harddangos mewn arddangosfeydd sy'n newid, bydd angen i'r adran gadwraeth fechan ehangu, ac mae goblygiadau adnoddau i hynny. Ar hyn o bryd mae llawer o weithiau nad ydynt yn cael eu dangos oherwydd eu bod yn ffurfio rhan o ôl-groniad cadwraeth sylweddol.
- ▼ Byddai'r ganran sylweddol o gelfyddyd Gymreig sydd ar hyn o bryd ar waliau'r orielau yn cael proffil llawer uwch, heb fod ar y cyrion

## Cynnig 4: Cwestiynau

? ? Ydych chi'n ystyried bod yr arddangosfeydd newidiol yn yr Oriel 'Celfyddyd yng Nghymru' yn llwyddiannus? Ydych chi wedi mwynhau ystod ac amrywiaeth yr arddangosfeydd thematig? Neu a fyddai'n well gennych chi weld arddangosfa barhaol fwy traddodiadol o gelfyddyd Cymru?

? ? Gan ddibynnu ar eich ateb i'r trydydd cwestiwn, dywedwch wrthym sut yr hoffech chi weld AOCC:

- yn datblygu dulliau o gynnig arddangosfeydd thematig newidiol?
- yn datblygu technegau dadansoddol (fel labelu, llwybrau a chanllawiau awdio) sy'n gymorth i ymwelwyr ddeall a gwerthfawrogi celfyddyd Cymru, heb fod hynny'n ei gwahanu oddi wrth ei chyd-destun rhyngwladol?
- yn datblygu ac yn costio cynllun ar gyfer buddsoddi o'r newydd yn yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer datblygu'r agwedd hon yn llawn fel rhan o'n gwaith?

? ? Os hoffech ein gweld yn dychwelyd at arddangosfa fwy traddodiadol o gelfyddyd yng Nghymru, dywedwch wrthym sut a ble yr hoffech weld hyn yn cael ei wneud.

## CYNNIG 5: Oriel genedlaethol sy'n sefyll ar ei phen ei hun

Gellid gweithredu cynigion 1-4 heb greu Oriel Genedlaethol sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Yn benodol, mae **CYFOETH CYMRU GYFAN - SHARING THE TREASURES** yn pwysleisio'r potensial i ehangu ac i fuddsoddi mewn canolfannau rhanbarthol allweddol er mwyn i nifer fach o safleoedd yn ne-orllewin, canolbarth, gogledd-ddwyrain a gogledd Cymru fwynhau statws, proffil a momentwm 'cenedlaethol'.

Hefyd trafododd Rhan 1 yr ymgynghoriad Oriel Genedlaethol yn sefyll ar ei phen ei hun, a chododd nifer o gwestiynau ynghylch beth fyddai hyn yn ei olygu i'r canolfannau rhanbarthol ac i'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol bresennol yng Nghaerdydd.

Ystyriwyd bod tri opsiwn yn addas:

- Creu oriel ranbarthol y tu allan i Gaerdydd
- Creu oriel mewn adeilad yng Nghaerdydd, ar wahân i'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol bresennol ym Mharc Cathays
- Cwblhau'r adeilad ym Mharc Cathays yn ôl y cynllun gwreiddiol, drwy adeiladu adain ogleddol

## Buddiannau posibl Oriel Genedlaethol newydd

- ▲ Byddai orielau a dehongli newydd yn gweddnewid y ffordd y mae AOCC yn adrodd stori celfyddyd yng Nghymru o fewn cyd-destun rhyngwladol
- ▲ Byddai'r Amgueddfa yn ehangu ac yn datblygu i gwmpasu agweddau rhyngwladol a diweddaraf ei gwaith gwyddonol a hanesyddol yn well
- ▲ Mae gan AOCC record cyflenwi da, o ail-ddatblygiad bloc canolog £25 miliwn i'r Strategaeth Ddiwydiannol £40 miliwn. Byddai Cymru yn gyffredinol yn elwa o'r datblygiad hwn
- ▲ Prosiect cyffrous ac uchel ei broffil i ddenu twristiaid
- ▲ Adnabyddiaeth cynulleidfa o fenter arbennig newydd

## Cyfyngiadau posibl

- ▼ Goblygiadau adnoddau menter newydd o bosibl yn cyfeirio adnoddau oddi wrth brosiectau eraill
- ▼ Goblygiadau adnoddau ailgynllunio yn angenrheidiol i greu Amgueddfa Genedlaethol gydlynol sy'n gysylltiedig â'r Oriel Genedlaethol newydd.

Mae AOCC yn croesawu eich barn ar y dewisiadau ar gyfer oriel sy'n sefyll ar ei phen ei hun, a wyntyllir ar y tudalennau canlynol, a sut y byddai'n gweithio gyda chynigion 1-4 uchod

## OPSIWN 5.1: Creu oriel ranbarthol y tu allan i Gaerdydd

Gellid cryfhau rôl oriel genedlaethol AOCC drwy **ddatblygu un o'r partneriaid rhanbarthol i fod yn Oriel Genedlaethol 'arweiniol' ar wahân**, neu drwy gychwyn sefydliad newydd sbon y tu allan i Gaerdydd.

Er mwyn bod yn ychwanegiad arwyddocaol i'r isadeiledd celfyddyd weledol o fewn Cymru a thrwy'r DU, byddai'n rhaid i hwn fod yn safle digon sylweddol i gario arddangosfeydd arwyddocaol, wedi'u tynnu o gasgliadau cenedlaethol AOCC, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a sefydliadau eraill. Er na fyddai hyn yn golygu ail-leoli'r holl gasgliadau celfyddyd sydd yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, byddai'n cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth bresennol yno.

Gellid gweithredu'r dewis hwn mewn partneriaeth gydag, er enghraifft, cyrff fel awdurdod lleol, y Llyfrgell Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, neu gorff annibynnol fel ymddiriedolaeth neu elusen. Awgrymwyd gogledd-ddwyrain Cymru fel lleoliad

## Buddiannau posibl yr opsiwn 'tu allan i Gaerdydd'

- ▲ 'Llechen lân' – dim angen integreiddio'r datblygiad ag adeilad AOG sy'n bodoli eisoes
- ▲ Yn estyn presenoldeb AOCC i ranbarth arall o Gymru
- ▲ Proffiliau gwahanol ymwelwyr â chasgliadau AOCC
- ▲ Yn gorwedd yn dda a'r agenda wleidyddol bresennol o ddatganoli
- ▲ Gallai greu safle newydd i dwristiaeth

## Cyfyngiadau posibl yr opsiwn 'tu allan i Gaerdydd'

- ▼ Yn cystadlu ag orielau sy'n bodoli eisoes ac orielau 'partner' newydd
- ▼ Yn golygu gwahanu rheolaeth ymchwil, cadwraeth a chasgliadau oddi wrth yr arddangosfeydd, oni bai fod staff ac adnoddau yn cael eu hadleoli
- ▼ Lleihau'r cyfle i wneud gwaith rhyng-ddisgyblaethol yn cysylltu celfyddyd, gwyddoniaeth a hanes

▼ Effaith amgylcheddol
▼ Colli cynulleidfa a phresenoldeb prif ddinas

## OPSIWN 5.2: Creu oriel mewn adeilad yng Nghaerdydd ar wahân i'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol.

Gallai AOCC gaffael ac **addasu adeilad sy'n bodoli eisoes yng Nghaerdydd**, naill ai mewn partneriaeth neu ar ei ben ei hun, i weithredu fel Oriel Genedlaethol gyflawn. Gallai'r dewis hwn olygu rhannu'r casgliadau celfyddyd rhwng dau safle, gan adael peth celfyddyd (cain ac addurniadol) i'w harddangos mewn cyd-destun rhyng-ddisgyblaethol. Fel yn yr opsiwn cyntaf, gallai'r opsiwn yma gael ei ddarparu mewn partneriaeth, er enghraifft gyda chyrff megis awdurdod lleol, a gallai gynnwys deunydd a fenthycwyd oddi wrth y Llyfrgell Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac eraill, a gwagle ar gyfer arddangosfeydd helaeth. Fel arall, gellid symud yr holl gasgliadau i'w harddangos ar y safle newydd.

## Buddiannau posibl yr opsiwn 'o fewn i Gaerdydd'

▲ Prosiect celfyddyd weledol pwysig ym mhrifddinas Cymru, 'Oriel Genedlaethol' yw'r unig adnodd diwylliannol mawr sydd ar goll o'r ddinas
▲ Lleolir yr Oriel Genedlaethol yn agos i'w phrif ganolfannau poblogaeth
▲ Lleolir yr Oriel Genedlaethol yn agos i Ganolfan Gasgliadau'r AOCC yn Nantgarw
▲ Yn rhoi hunaniaeth i'r Oriel Genedlaethol ar wahân i'r Amgueddfa Genedlaethol
▲ Yn darparu gwagle ychwanegol sy'n fawr ei angen ar gyfer arddangos celfyddyd

## Cyfyngiadau posibl yr opsiwn 'o fewn i Gaerdydd'

▼ Ehangu darpariaeth AOCC o fewn Caerdydd, yn hytrach nag yn unrhyw le arall yng Nghymru
▼ Creates some duplication of costs without major regional presence
▼ Materion cynllunio yn gysylltiedig ag adnabod safle addas
▼ Yn cystadlu am adnoddau â mentrau partneriaethol posibl y tu hwnt i GaerdyddV

## OPSIWN 5.3: Creu oriel ar safle Parc Cathays, fel adain ogleddol, gan ailddiffilnio'r safle fel 'Amgueddfa Genedlaethol' ac 'Oriel Genedlaethol'

Gallai AOCC **ailddiffinio rôl a hunaniaeth yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol** ym Mharc Cathays, gan greu datganiad pensaernïol clir o 'Oriel Genedlaethol' gan ddefnyddio canmlwyddiant ei sefydlu yn 2007 fel dyddiad i lansio cynlluniau ar gyfer datblygiad o'r fath

Byddai hyn yn caniatáu dwy fynedfa wahanol i'r adeilad – yr Oriel Genedlaethol yn yr adain ogleddol newydd a'r Amgueddfa Genedlaethol drwy'r fynedfa bresennol yn yr adain ddeheuol.

Casgliad Rhan 1 yr ymgynghoriad oedd y dylid gweithredu syniadau mewn Oriel Genedlaethol mewn ffyrdd a fyddai'n parhau i alluogi i gelfyddyd weithio ochr yn ochr
â phynciau eraill. Byddai gwahanu'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Oriel Genedlaethol yn cydbwyso rhwng hunaniaethau 'amgueddfa' ac 'oriel' ar wahân, fel y gellid ei wneud drwy wahaniaethu rhwng celfyddyd

'hanesyddol' a 'modern' a 'chyfoes'.

Byddai ailddiffinio'r safle yn ffocysu rôl yr Amgueddfa ar ei chyfrifoldeb hanesyddol i astudio a datblygu ymwybyddiaeth o esblygiad amgylchedd Cymru, tra'n galluogi i'r Oriel ddatblygu cyfleon cyffrous i greu themâu croesdoriadol i arddangosfa gelfyddydol gronolegol. Fel yn opsiwn un a dau, gallai'r datblygiad hwn gynnwys gwagle ar gyfer arddangosfeydd helaeth, a chynnwys deunydd o gasgliadau eraill.
between 'historic', 'modern' and 'contemporary' art.

# Buddiannau posibl safle presennol AOG

- ▲ Bu sefydlu adain Ogleddol yn amcan ers i Barc Cathays gael ei 'osod' ym 1911. Mae'r tir ar gael ac fe godwyd yr adeilad presennol mewn modd y byddai'n caniatáu i hyn ddigwydd
- ▲ Effaith cost refeniw is
- ▲ Gellid cadw rhai o'r orielau hanesyddol presennol, wedi'u cysylltu â'r adain newydd, gan alluogi i gelfyddyd hanesyddol, modern a chyfoes gael eu harddangos yn yr un lleoliad, ond â gofod cyferbyniol i bob un
- ▲ Byddai'n hwyluso gwaith rhyng-ddisgyblaethol yn cysylltu celfyddyd, gwyddoniaeth a hanes
- ▲ Byddai'n creu adnoddau mynediad newydd i'r holl safle e.e. mynedfa newydd, gofod addysg ac ati, heb newid y talwyneb hanesyddol gwreiddiol.

# Cyfyngiadau posibl safle presennol AOG

- ▼ Cyfyngiadau cynllunio posibl o fewn ardal y Ganolfan Ddinesig
- ▼ Mecanwaith cysylltu'r adeilad newydd â'r hen un yn foddhaol
- ▼ Canfyddiad o newid cyfyngedig yn unig, oni bai fod i'r 'Adain Ogleddol' hunaniaeth bensaernïol glir
- ▼ Nid yw o reidrwydd yn rhyddhau gofod a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr Adran Gelfyddyd at ei ddefnydd
- ▼ Nid yw'n creu presenoldeb 'ar ei ben ei hun' y tu allan i Gaerdydd – byddai angen orielau partner rhan barthol i greu mynediad i orielau yn rhanbarthau Cymru

# Cynnig 5: Cyd-destun Cyffredinol

Gwelir y costau arwyddol a'r costau refeniw isod. Fodd bynnag cred AOCC na ddylai cost-effeithiolrwydd ymd-dangosiadol fod yn brif reswm dros ddewis opsiwn. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu'r opsiwn gorau i Gymru ac yn datblygu i fyny at safon yn hytrach nag i lawr at bris.

**Costau cyfalaf arwyddol**

Mae'n anodd ar hyn o bryd i ystyried costau arfaethedig unrhyw un o'r gwahanol opsiynau gan eu bod yn dibynnu ar leoliad, y deunydd adeiladu a ddefnyddir ac amseru'r broses adeiladu. Fodd bynnag byddai costau arwyddol ar brisiau heddiw ar gyfer oriel gelfyddyd o safon ryngwladol tua £3,000-£3,700 y metr sgwâr a gellid ystyried felly y byddai adeilad ag arwynebedd llawr o 9,000 metr sgwâr – digon ar gyfer orielau a gofod cynnal – tua £27m-£33m, gan gynnwys gosodion.

Pe bai'n cael ei lleoli ar safle presennol yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, ni fyddai costau prynu tir. Byddai modd cynnwys rhywfaint o'r 3,000 metr sgwâr o ofod Oriel Gelfyddyd, fyddai yn ei dro yn lleihau'r costau adeiladu.

Pe bai safle arall yn cael ei ddewis, byddai'n rhyddhau gofod yr Oriel Gelfyddyd bresennol ar gyfer arddangos rhagor o gasgliadau gwyddoniaeth ac archeoleg yr Amgueddfa. Byddai cost ychwanegol ailosod y gofod a adawyd tua £4m - £5m er y byddai hyn yn dibynnu ar lefel y dechnoleg a gynhwyswyd mewn unrhyw arddangosfa.
Yn ychwanegol at y costau canllaw uchod byddai gwerth pwrcasu y tir fyddai ei angen a chostau unrhyw waith

isadeiledd ychwanegol, fyddai'n amrywio yn ôl y lleoliad a ddewiswyd.

Pe bai adeilad sy'n bodoli eisoes yn cael ei addasu, byddai'r costau yn is na'r costau adeilad newydd a nodwyd uchod. Byddai maint y gwahaniaeth yn dibynnu ar gyflwr yr adeilad a ddewiswyd a lefel yr atgyweirio fyddai ei angen. Byddai hyn yn cael ei gydbwyso i raddau gan gostau pwrcasu'r adeilad ei hun. Nid yw addasu adeilad sy'n bodoli eisoes o reidrwydd yn opsiwn rhatach. Mae'r tabl isod yn ceisio crynhoi'r costau tebygol.
.

| Estyn AOG | Adeilad newydd mewn | Addasu'r adeilad presennol |
|---|---|---|
| £27-33m | £27-33 m a phwrcasu'r tir ac isadeiledd<br>Hefyd £4-5 m ar gyfer ail-wneud Orielau AOG. | £27m a phwrcasu<br>Hefyd £4-5 m ar gyfer ail-wneud Orielau AOG |

# Goblygiadau refeniw

Ar y dechrau fel hyn, amcangyfrif yn unig y gellir ei roi o gostau refeniw Oriel Genedlaethol, lle bynnag fydd wedi'i lleoli. Fodd bynnag, bydd costau Oriel Genedlaethol sy'n sefyll ar ei phen ei hun yn cynnwys darparu gwasanaethau corfforaethol i safle o bell a chostau cyffredinol rhedeg y safle hwnnw, fel diogelwch, glanhau a chynnal a chadw.

Fel man cychwyn, roedd adroddiad diweddar Pratley i CCC yn awgrymu y byddai costau refeniw oriel 'ail haen' ar gyfer celfyddyd fodern (sef ein Opsiwn Dau ni) yn £700,000 (gan gynnwys costau staff, cyllideb arddangosfeydd, gwaith allanol a datblygu cynulleidfa a chostau gweinyddol). Gwelir hwn fel gofod arddangos yn unig heb gyfrifoldeb gofal ac ymchwil casgliadau, ar fodel safleoedd celfyddyd gyfoes rhanbarthol Lloegr a'r Alban.

Cymhariaeth wahanol fyddai Oriel Tate, Lerpwl, sy'n cynnwys rhai casgliadau ar y safle gydag ardaloedd storio a gweithdai ynghyd â lefel uwch o gefnogaeth guradurol na gofod arddangos 'pur'. Mae'n gweithredu ar gost o tua £2.5 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag gall alw ar wasanaethau canolog Tate ar gyfer trafnidiaeth, trosglwyddo casgliadau a staff technegol, yn ogystal ag isadeiledd cynhaliol fel arbenigedd curadurol a chadawraethol a chofrestru data ar-lein, nad yw AOCC yn eu darparu. Byddai'r rhain yn costio tua £0.5 miliwn arall, gan wneud cyfanswm o £3 miliwn.

Byddai goblygiadau refeniw estyniad i safle presennol AOG rywfaint yn llai gan fod y gwasanaethau cynhaliol canolog yn eu lle. Fodd bynnag byddai costau refeniw ychwanegol i ddarparu gwasanaethau curadurol ac addysgol a chynnal y rhaglen bartneriaeth ryngwladol fyddai'n ganolog i'r gweithgaredd.

# Cynnig 5: Cwestiynau cyffredinol

? Pa un o'r dewisiadau hyn sy'n apelio fwyaf atoch chi a pham?

? Pa un o'r tri opsiwn sy'n ymddangos fel pe bai'n cynnig y gwerth gorau? A ddylai hyn fod yn ystyriaeth neu a ddylai AOCC gael ei annog i ddarparu'r hyn fyddai'r peth gorau i Gymru y tymor hir?

? ? Pa un o'r tri opsiwn sy'n ymddangos fel pe bai'n cynnig y gwerth gorau? A ddylai hyn fod yn ystyriaeth neu a ddylai AOCC gael ei annog i ddarparu'r hyn fyddai'r peth gorau i Gymru y tymor hir?

? Ydych chi'n credu fod yr amserlen arfaethedig hon yn realistig a chymwys?

- 2002/3: Astudiaeth dichonoldeb a gwaith paratoadol arall
- 2004/5: Cynllunio a dyfeisio datblygiad a chyflwyno ceisiadau cyllido
- 2006: Lansio ymgyrch gyhoeddus i godi arian
- 2011: Agor yr adnodd newydd

Os nad ydych chi, pam? Oes yna gamau eraill i'r broses y byddech chi yn eu hawgrymu?

# 3. SUT I YMATEB I'R PAPUR YMGYNGHORI HWN

Bydd yr ymarfer ymgynghori hwn yn chwarae rhan hanfodol wrth ailddiffinio agwedd AOCC i arddangos y casgliadau celfyddyd y mae'n eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ran y genedl. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cymryd rhan hyd yma, ac yn awyddus iawn i dderbyn ymateb da i'r ddogfen nesaf hon.

Efallai na fyddwch am ymateb i'r holl gwestiynau a ofynnwyd gennym; yn yr un modd efallai y byddwch am wneud sylwadau ar faterion eraill y credwch eu bod yn berthnasol. Dymunwn i'r ymgynghoriad hwn fod mor eang â phosibl: gofynnwn i chi wneud defnydd o'r cyfle hwn.

Bydd adroddiad terfynol yn seiliedig ar yr ymarfer llawn yn cael ei greu pan fydd yr holl ymatebion wedi'u casglu ac yn gyflawn. Fel gyda'r adroddiad ar Ran 1, bydd ar gael ar wefan AOCC ( www.aocc.ac.uk ), a gellir gwneud cais am gael derbyn copi drwy'r post. Mae'n bosibl y byddwn am gyhoeddi rhai o'r sylwadau a dderbynnir yn y dyfodol. Oni bai eich bod yn nodi yn benodol i'r gwrthwyneb, byddwn yn cymryd y gallwn gyhoeddi eich sylwadau yn llawn neu'n rhannol.

Anfonwch eich ymateb i:

**Michael Tooby,**
**Cyfarwyddwr,**
**Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol,**
**Parc Cathays,**
**Caerdydd,**
**CF10 3NP**

neu ar e-bost at:
**celf-atebiad@aocc.ac.uk.**

Os yw'n bosibl, gofynnwn i chi gynnwys eich enw, cyfeiriad cyswllt a disgrifiad byr o'ch diddordeb yn y pwnc. Os oes angen copi caled o'r adroddiad terfynol arnoch, nodwch hynny.

**Rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn 31 Gorffennaf, 2002.**

# ATODIAD 1

## CYFARFOD YMGYNGHOROL YNGHYLCH ARDDANGOS CELFYDDYD

(Ionawr 31: Oriel Mostyn, Llandudno)

**Rhestr o'r sawl oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Martin Barlow | Cyfarwyddwr Oriel Mostyn |
| Amanda Farr | Cyfarwyddwr Oriel 31 Oriel Goffa Davies |
| David Nash | Artist |
| Peter Prendergast | Artist |
| Julian Treuherz | Ceidwad Orielau Celfyddyd AOCM |
| Alan Watkin | Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant |
| CB Wrecsam | |
| Lois Williams | Aelod o Banel Celfyddydau AOCC |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Marian Blockley | Ymgynghorydd yn Arolwg Pum Mlynyddol AOCC |
| Dr Peter Watt | Ymgynghorydd yn Arolwg Pum Mlynyddol AOCC |

**Yn ychwanegol:**

| | |
|---|---|
| David Clarke | DCA (Caerdydd) Cyf, Ymgynghorydd, hwyluswr y cyfarfod |
| Mike Tooby | Cyfarwyddwr AOG |
| Oliver Fairclough | Ceidwad Celfyddyd AOCC |
| Arabella Smith | Cynorthwy-ydd Curadurol AOCC, gweinyddydd y cyfarfod |

## CYFARFOD YMGYNGHOROL YNGHYLCH ARDDANGOS CELFYDDYD

(Chwefror 7: AOG

**Rhestr o'r sawl oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Jenni Spencer Davies | Curadur Oriel Gelf Glynn Vivian |
| Carole-Anne Davies | Cyfarwyddwr CBAT Caerdydd |
| Ivor Davies | Artist |
| D Michael Francis | Llyfrgell Genedlaethol |
| David Hastie | Iocws international Abertawe |
| Gill Hedley | Cyfarwyddwr Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes |
| Shani Rhys James | Artist |
| Angharad Jones | Artist |
| Sighle Breathnach Lynch | Curadur Paentiadau Gwyddelig, Oriel Genedlaethol Iwerddon |
| Robert Meyrick | Curadur Prifysgol Cymru Aberystwyth |
| Terry Setch | Artist |
| Cecile Johnson Soliz | Artist |
| Dr Peter Wakelin | Etifeddiaeth/awdur |
| William Wilkins | Artist |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Marian Blockley | Ymgynghorwyr yn Arolwg Pum Mlynyddol AOCC |
| Dr Peter Watt | |

**Yn ychwanegol**

| | |
|---|---|
| David Clarke | DCA (Caerdydd) Cyf, Ymgynghorydd, hwyluswr y cyfarfod |
| Mike Tooby | Cyfarwyddwr AOG |
| Oliver Fairclough | Ceidwad Celfyddyd AOCC |
| Arabella Smith | Cynorthwy-ydd Curadurol AOCC, gweinyddydd y cyfarfod |
| Kate Lowry | Prif Swyddog Cadwraeth (Paentiadau Olew) AOCC, sylwedydd |

## CYFARFOD YMGYNGHOROL YNGHYLCH ARDDANGOS CELFYDDYD

(Chwefror 20: AOG)

**Rhestr o'r sawl oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Iwan Bala | Artist |
| Marie Bourke | Oriel Genedlaethol Iwerddon |
| Janet Davies | Cronfa Caffael re:source |
| Tim Davies | Artist |
| Sir Richard Hanbury-Tenison | Aelod o Gyngor a Phanel Celfyddydau AOCC |
| James Holloway | Ceidwad Oriel Bortreadau Genedlaethol yr Alban |
| David Jaffe | Uwch Guradur yr Oriel Genedlaethol |
| Peter Jenkinson | Cyfarwyddwr New Art Gallery Walsall |
| Tamara Krikorian | Artworks Cymru |
| Alastair Lang | Cynghorydd ar Baentiadau a Cherfluniau yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Dafydd Bowen Lewis | Aelod o Gyngor a Phanel Celfyddydau AOCC |
| Karen MacKinnon | Canolfan Celfyddydau Chapter Caerdydd |
| Michael Nixon | MN Arts Associates |
| Ros Savill | Aelod o Banel Celfyddydau AOCC |
| Ceri Sherlock | Cyfarwyddwr/ymgynghorydd darlledu celfyddydol |
| Mary Yule | Pennaeth Grantiau NACF |

**Yn ychwanegol:**

| | |
|---|---|
| David Clarke | DCA (Caerdydd) Cyf, Ymgynghorydd, hwyluswr y cyfarfod |
| Mike Tooby | Cyfarwyddwr AOG |
| Oliver Fairclough | Ceidwad Celfyddyd AOCC |
| Arabella Smith | Cynorthwy-ydd Curadurol AOG, gweinyddydd y cyfarfod |
| Ann Sumner | Ceidwad Cynorthwyol (Celfyddyd Gain), AOCC, sylwedydd |
| Julie Richards | Swyddog y Wasg, AOG, sylwedydd |

## CYFARFOD YMGYNGHOROL YNGHYLCH ARDDANGOS CELFYDDYD

(Mai 01: AOG)

**Rhestr o'r sawl oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Hugh Adams | Cymrawd Ymchwil mewn Ymarfer Celfyddyd Gain, UWIC |
| Richard Avent | Prif Arolygwr Cadw: Henebion Cymreig |
| Dr David Gaimster | Ceidwad Cynorthwyol Canoloesol ac Ewrop Gynnar, Amgueddfa Brydeinig |
| Dr Alison Sheridan | Ceidwad Cynorthwyol of Archeoleg, Amgueddfa Genedlaethol Yr Alban |

**Archaeoleg a Nwmismateg AOCC**

| | |
|---|---|
| Richard Brewer | Ceidwad Archeoleg a Nwmismateg, AOCC |
| Dr Mark Redknap | Canoloeswr, AOCC |
| Adam Gwilt | Cyn-hanesydd hwyr, AOCC |

**In Addition:**

| | |
|---|---|
| David Clarke | DCA (Caerdydd) Cyf, Ymgynghorydd, hwyluswr y cyfarfod |
| Mike Tooby | Cyfarwyddwr AOG |
| Oliver Fairclough | Ceidwad Celfyddyd AOCC |
| Arabella Smith | Cynorthwy-ydd Curadurol AOCC, gweinyddydd y cyfarfod |

## CYFARFOD YMGYNGHOROL YNGHYLCH ARDDANGOS CELFYDDYD

(Mai 08: AOG)

**Rhestr o'r sawl oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peter Appleton | PCCC |
| Eileen Davies | Pennaeth Cyfadran yr Amgylchedd, Coleg y Drindod |
| Tecwyn Jones | Panel Gwyddoniaeth AOCC |

**Biosyb & Daeareg, AOCC**

| | |
|---|---|
| Graham Oliver | Ceidwad, Pennaeth Adran, Biosyb, AOCC |
| Lucy Hammond | Gweinyddydd Gwyddonol |
| Chris Meechan | Darlunydd Gwyddonol |
| Peter Howlett | Curadur Swoleg Fertebraidd |
| Michael Bassett | Ceidwad Daeareg, AOCC |
| Robert Owens | Ceidwad Cynorthwyol, Pennaeth Paleontoleg |
| Richard Bevins | Ceidwad Cynorthwyol, Pennaeth Mwnyddiaeth/Petroleg |

**Yn ychwanegol:**

| | |
|---|---|
| David Clarke | DCA (Caerdydd) Cyf, Ymgynghorydd, hwyluswr y cyfarfod |
| Mike Tooby | Cyfarwyddwr AOG |
| Arabella Smith | Cynorthwy-ydd Curadurol AOCC, gweinyddydd y cyfarfod |

### YMDDIHEURIADAU A DDERBYNIWYD GAN WAHODDEDIGION Y RHAN GYNTAF

| | |
|---|---|
| Athro Brian Allen | Cyfarwyddwr Astudiaethau Canolfan Paul Mellon |
| David Anderson | Pennaeth Addysg Amgueddfa Victoria and Albert |
| Gwenllian Ashley | Curadur Cynorthwyol Amgueddfa Ceredigion |
| Judith Bowles | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| George Dalgleish | Curadur (Celfyddydau Addurniadol Albanaidd) NMS |
| Dr David Davies | Coleg Prifysgol Llundain |
| Stuart Davies | Pennaeth Polisi re:source |
| Philippa Glanville | Cyfarwyddwr Casgliad Waddesdon |
| Steve Green | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Tessa Jackson | Cyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau'r Alban |
| Geraint Jenkins | Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd |
| Peter Lord | Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd |
| Arthur MacGregor | Ceidwad Cynorthwyol Adran Henebion Amgueddfa Ashmole |
| Kevin Mason | Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Cwmni Castell Bodelwyddan |
| Sandy Nairne | Cyfarwyddwr Rhaglenni Cenedlaethol Oriel Tate |
| Edmund de Waal | Panel Celfyddydau AOCC |
| Dr Louise Webb | The BA/Techniquest |
| Syr Kyffin Williams | Artist |

[Mynegodd llawer o'r sawl a restrwyd uchod barodrwydd i gymryd rhan yn ddiweddarach yn y broses]

## TRAFODAETH CYHOEDDUS 17 MAI 2001

a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

**Mynychwyr**

Janek Alexander
Daniel Allan
Eileen Allan
David and Diana Andrews
Iwan Bala
David Barter
Clive Cazeaux
David Cushwway
Clare Curneen
Ivan Davies
Ivor Davies
Marion Davies
Geraldine Donovan
Eric Dover
Ken Elias
Alf Evans & guest
Howard J Evans
Roger Farrance
David Garner

Anthony Goble
Christopher Gridley
Sir Richard Hanbury-Tenison KCVO
Ken Harris and guest
Harry Holland
Sue Hunt
Dora Hurst
Ceri Jones
Glyn Jones
Hugh Jones
Jonah Jones
Tecwyn Jones OBE
Mary Lloyd Jones
Eirlys Pritchard Jones
Pat Kernick
Tamara Krikorian
Hefin Looker
Steve Lloyd
David Moore
John Meirion Morris
Michael Nixon
Ozy Osmond
Margaret Pike
Rosemary Payne
Tom Piper
Malcolm & Monica Porter
Richard Powell
Malcolm Parry
Linda Quinn
Terry Setch
Kevin Sinnott
Dai Smith
John F Skone
Geoffrey Swindell
Robyn Tomos
John Upton
Jean Walcot
Peter Watt
Sheila Weaver & Guest

**In addition, from NMGW:**
Elaine Cabuts
Julia Carver
Bryony Dawkes
Sandrine Decoux
Tim Egan
Eleri Wyn Evans
Oliver Fairclough
Adam Gwilt
Maureen Lazarus
Philip MacDonald
Beth MacIntyre
Judi Pinkham
Andrew Renton
Ann Sumner
Jennifer Thomson
Helen Waters

Yn ogystal â'r canlynol na roddasant eu henwau:
2 aelod o AOCC
15 a ymatebodd i'r hysbyseb a roddwyd yn y Western Mail
6 aelod o'r gymuned gelfyddydol a'r cyhoedd oedd â diddordeb

# ATODIAD 2

## Canlyniadau allweddol Rhan 1: Crynodeb o'r prif themâu a materion a godwyd

Bwriad yr Atodiad hwn yw crisialu barn y bobl hynny yr ymgynghorwyd â hwy yn Rhan 1 yr ymgynghoriad. Mae'n bosibl felly y bydd peth o'r iaith yn ymddangos yn dechnegol neu braidd yn arbenigol. Gobeithio fydd yr esboniadau o gymorth i'r rheiny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r maes. Derbyniodd y cyfranogwyr wybodaeth gefndir am AOCC a'r gwaith a wneir gan Adran Gelfyddyd AOCC, am y casgliadau a'r polisïau caffael a mynediad. Roedd o gymorth i'r grwpiau ffocws egluro rhai camargraffiadau ynghylch rôl AOCC, beth mae'n ei gasglu a'i arddangos a pham. Cynhwysir yr wybodaeth hon yn Atodiad 2.

Cydnabu Rhan 1 fod cyllidebau staffio a gweithredu Adran Gelfyddyd AOCC yn fach iawn o'u cymharu

ag orielau cenedlaethol a hyd yn oed rhai orielau Seisnig ac Albanaidd rhanbarthol. Roedd yr adnoddau storio, cadwraeth a phrosesu a phacio benthyciadau hefyd yn bryder. Os yw rôl yr Adran Gelfyddyd i gael ei ehangu, byddai'n rhaid i AOCC ailystyried blaenoriaethau staffio a gwasanaethau cynnal. Cydnabuwyd yn gyffredinol hefyd bod AOCC, er gwaethaf ei adnoddau cyfyng, wedi gwneud camau sylweddol yn ddiweddar i ehangu mynediad i gelfyddyd o darddiad Cymreig a thramor, boed yn gyfoes, yn fodern neu yn hanesyddol.

**Cyflwynir canlyniadau Rhan 1 yn llawn ar wefan AOCC (www.aocc.ac.uk)  a cheir crynodeb ohonynt isod:**

## 2.1 Pam trafod arddangos gweithiau celfyddyd yng Nghymru nawr?

Mae i gelfyddydau gweledol ran sylweddol wrth ddiffinio hanes a hunaniaeth genedlaethol, a gallant gael effaith eang a gwerthfawr yn ddiwylliannol ac economaidd. Am lawer o'u hanes bu datblygiad ac arddangos y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn dioddef adnoddau annigonol.

Ystyriai ymgynghorwyr Rhan 1 bod angen buddsoddi ar frys yn isadeiledd (h.y. adeiladau a lefelau staffio) AOCC a sefydliadau celfyddydol eraill ledled Cymru. Nid yw'n bosibl gweithredu gwelliannau tymor byr na chynllunio datblygiadau tymor hir ar gyfer arddangos gweithiau celfyddyd ar hyd a lled Cymru heb y buddsoddiad hwn.

Mae'r farn hon yn unol â'r hyn a ddywedwyd yn yr Adolygiad o Orielau a Safleoedd Arddangos Parhaol yng Nghymru a baratowyd yn ddiweddar i Gyngor Celfyddydau Cymru gan David Pratley Associates. Canfu fod cyfanswm gwariant yng Nghymru ar y Celfyddydau Gweledol 30% yn is nag yn Lloegr a 42% yn is nag yn yr Alban. Mae'r tanwario hwn i'w weld yn arbennig o glir yn y sector llywodraeth leol.

Noda AOCC fod strategaeth Llywodraeth y Cynulliad 'Dyfodol Creadigol: Cymru Creadigol' yn adnabod yr angen am ragor o fuddsoddiad, fel y gwelwyd gyda'r cynnydd o 23% yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2002-03.

## 2.2 Yr agwedd ddidactig, gronolegol tuag at arddangos gweithiau celfyddyd yn erbyn yr agwedd thematig, storïol

Yn aml mae darparu un detholiad sefydlog o weithiau  mawr sy'n ymddangos yn anamserol (yr agwedd ganonaidd) yn dasg a nodir fel un allweddol i gasgliad cenedlaethol. Fodd bynnag heriwyd hyn yn eang yn ystod y degawd diwethaf. Casgliad y ddadl yw na ddylid cyfyngu celfyddyd a diwylliant i un agwedd. Anogodd Rhan 1 AOCC i gydnabod os yw am gadw ei hygrededd, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, na all gael ei dynnu i ddarparu 'canon' sefydlog, fel 'Oriel o Gelfyddyd Gymreig'. Byddai'r agwedd simplistig hon yn gyrru celfyddyd Gymreig ymhellach i'r cyrion.

Mae'n bwysig felly i AOCC gydnabod fod y syniad o oriel yn dangos taith gronolegol sefydlog o'r Dadeni i'r presennol yn brin o ehangder ac apêl i lawer o ymwelwyr. Mewn llawer o orielau, mae'r agwedd 'llinell amser' yn ffurfio fframwaith ar gyfer arddangosfeydd thematig a chroesdoriadol sy'n hyblyg a deinamig. Mae 'Y Corff', 'Y Dirwedd', 'Ein Hunaniaeth' yn enghreifftiau llwyddiannus diweddar o Amgueddfeydd eraill sy'n ychwanegu ystyr, amrywiaeth a newid, gan gynnal a datblygu diddordeb cyhoeddus.

Bydd unrhyw gynnydd mewn gofod arddangos, lle bynnag y bo, yn gwella gweithrediad polisi mynediad mwy amrywiol ar gyfer AOCC. Bydd natur a lleoliad y gofod hwnnw yn dylanwadu ar sut y gwneir hyn.

## 2.3 Casglu ac arddangos Gweithau Celfyddyd

Deellir yn gyffredinol bellach fod AOCC yn casglu gweithiau celfyddyd am lu o resymau ar wahân i'r angen i arddangos casgliadau mewn un lle am byth. Cydnabyddir ei bod yn hanfodol i gasgliadau cenedlaethol fod ar gael ar gyfer ymchwil, benthyca a newid arddangosfeydd. Canmolodd Rhan 1 haelioni AOCC gyda'r casgliadau, yr wybodaeth a'r arbenigedd sydd yn bresennol o fewn y sefydliad. Yn yr un modd teimlai fod rhaid i Oriel Genedlaethol effeithiol ddarparu adnoddau gwell o lawer ar gyfer ymchwil gan eraill, yn ogystal â chreu gwybodaeth newydd ei hun.

## 2.4 Gweithio o gwmpas Cymru

Rhaid cryfhau isadeiledd y celfyddydau gweledol drwy Gymru – a chyfeirir at hyn yn y polisïau a osodwyd yn strategaeth Llywodraeth y Cynulliad 'Dyfodol Creadigol: Cymru Creadigol'. Dibynna unrhyw gynlluniau i ddatblygu gwell mynediad i'r casgliadau cenedlaethol ar allu AOCC i gydweithio â phartneriaid gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru a Chyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru. Roedd lansio CYFOETH **CYMRU GYFAN - SHARING THE TREASURES** gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg ar ddydd Gwener 24 Mai yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad hwn.

## 2.5 Diffinio 'Cenedlaethol' a 'Rhyngwladol' – mater sylfaenol

Disgrifio casgliad mae'r gair 'cenedlaethol'. Fe'i defnyddir fel llaw fer fel mewn nifer o ffyrdd i olygu 'ar gyfer y genedl', 'am y genedl' ac 'o'r genedl' yn ogystal â dynodi arwyddocâd a safon ryngwladol. Gwelodd Rhan 1 fod diffyg dealltwriaeth cyhoeddus o'r termau ar hyd a lled y DU, yn ogystal ag yng Nghymru. Cydnabuwyd hefyd na ellid disgwyl i Adran Gelfyddyd AOCC gwrdd ar hyn o bryd â'r safonau uchel a ddynodir gan y term.

## 2.6 Ymwneud ag ymarfer gyfoes

Mae tair her wahanol i AOCC wrth ymwneud â'r cyfoes:

- cyflwyno celfyddyd fodern a chyfoes;
- casglu celfyddyd fodern a chyfoes; ac
- agwedd gyfoes tuag at rôl y Sefydliad yn ei waith i gyd, fel arddangos, ymchwil neu gyhoeddi.

Efallai nad Oriel Genedlaethol yn y ffurf draddodiadol yw'r lle gorau i fod yn unig ddarparwr yr angen a deimlir yn gryf ac a ddisgrifir gan y gyntaf o'r tair her hyn. Dylai fodd bynnag groesawu celfyddyd fodern a chyfoes a chymryd agwedd gyfoes. Golyga hyn ddefnyddio'r dulliau mwyaf cyfoes o gyflwyno celf gan gynnwys y persbectifau a grëir gan artistiaid eu hunain.

Un agwedd a awgrymwyd yn Rhan 1 oedd i AOCC fod yn ganolbwynt rhwydwaith cydlynol a ffocysedig o bartneriaethau cydweithredol â safleoedd llai ledled Cymru, y mae llawer ohonynt yn cynnig safleoedd mwy addas ar gyfer nifer o agweddau o raglenni cyfoes.

## 2.7 Celfyddyd aml-a rhyng-ddisgyblaethol – nid ynys mo celfyddyd

Noda AOCC fod ymchwil ymwelwyr yn dweud wrthym fod pobl yn mwynhau ac yn defnyddio'r profiad rhyng-ddisgyblaethol sydd ar y safle presennol, er eu bod yn ymweld yn aml am un rheswm cychwynnol. Felly maen nhw'n mwynhau gweld paentiad Michael Andrews 'Ayres Rock' sydd gyferbyn ag arddangosfa sy'n archwilio i weddnewidiad y ddaear drwy amser daearegol. Fodd bynnag byddent yn mwynhau

esboniad cliriach o gynnwys yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. Pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr Rhan 1 fod aml-ddisgyblaethedd AOG yn rhinwedd unigryw a gwerthfawr mewn Amgueddfa Genedlaethol neu oriel yn y DU

Ynghyd â'r angen amlwg am Oriel Genedlaethol wedi'i diffinio'n well, awgrymodd ymgynghoriad Rhan 1 y gellid manteisio ar gyfleon i ddatblygu cynulleidfa drwy gadw'r cyfleon rhyng-ddisgyblaethol unigryw a gynigir drwy gael yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Oriel Genedlaethol ar un safle. Yn y tymor byr awgrymwyd ei bod felly yn gwestiwn o fuddsoddi mewn dynodiad neu frandio er mwyn gwella adnabyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus. Yn y tymor hir mae hon yn ddadl bwerus dros beidio â gwahanu'r Oriel Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol yn gorfforol, ond yn hytrach gwahanu eu hunaniaeth a'u cyflwyniad.

### 2.8 "Oriel Genedlaethol " – nid yw'n ddewis hawdd

Awgrymodd ymgynghoriad Rhan 1 fod y manteision o gael adeilad 'o bwys' yn y brif ddinas, naill ai fel estyniad o AOG neu addasiad ar safle arall yn amlwg, yn arbennig gan fod twf yn y diddordeb mewn cyflwyno Cymru fel cenedl ddiwylliedig gyda Chaerdydd yn brif ddinas diwylliant.

Fodd bynnag teimlai llawer o gyfranogwyr Rhan 1 y dylid delio â'r materion eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad – ymarfer gyfoes, partneriaethau o gwmpas Cymru ac aml-ddisgybledd – cyn edrych ar brosiect adeiladu. Ystyriwyd felly nad mater syml o ddewis rhwng creu Oriel Genedlaethol newydd neu ddatblygu CYFOETH CYMRU GYFAN - SHARING THE TREASURES i wasanaethu gweddill y wlad oedd hi. Fodd bynnag rhaid i Oriel Genedlaethol newydd fod yn ddyhead tymor hir.

# ATODIAD 3
# Gwybodaeth gefndir

## Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

AOCC yw prif sefydliad etifeddiaeth Cymru. Mae'n dal tua 4.7 miliwn o wrthrychau mewn ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn amrywio yn eu maint o ffosilau daearegol microsgopig i'r adeiladau a ailgodwyd yn Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru. Maen nhw'n amrywio o offer gwehyddu a mwyngloddio i'r darlun miniatur cain o ddechrau'r 17eg ganrif o Henry Tywysog Cymru gan Isaac Oliver, o gelfyddyd Geltaidd gynnar i Bortread Augustus John o Dylan Thomas.

Mae AOCC yn elusen gofrestredig, a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol ym 1907. Fe'i hariannir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy grant-cymorth ac mae i'r sefydliad statws Corff Cyhoeddus a Noddwyd gan y Cynulliad. Pwrpas elusennol AOCC yw hyrwyddo addysg y cyhoedd. Noda'r Siarter y dylid cyflawni hyn yn bennaf drwy ddangos daeareg, mwnoleg, swoleg, botaneg, ethnograffeg, archeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru yn llawn drwy gasglu, cadw, egluro, cyflwyno a chyhoeddi.

Ar hyn o bryd mae AOCC yn gweithredu wyth Amgueddfa a Chanolfan Gasgliadau mewn naw lleoliad drwy Gymru.

| | |
|---|---|
| Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol (AOG) | Parc Cathays, Caerdydd |
| Amgueddfa Werin Cymru (AWC) | Sain Ffagan, Caerdydd |
| Amgueddfa'r Lleng Rufeinig (ALR) | Caerllion, Casnewydd |

| | |
|---|---|
| Amgueddfa Lechi Cymru (ALC) | Llanberis, Gwynedd |
| Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân Cymru (ADG) | Dre-fach Felindre, Caerfyrddin |
| Amgueddfa Rufeinig Segontium (ARS) | Caernarfon, Gwynedd |
| Oriel Tŷ Turner (OTT) | Penarth, Bro Morgannwg |
| Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru (PM) | Blaenafon, Torfaen |
| Canolfan Gasgliadau | Nantgarw, Rhondda Cynon Taf |

## Cynllunio Corfforaethol AOCC

Bwriada Cynllun Corfforaethol AOCC (2002 - 2005) fynd i'r afael â phum mater strategol. Y rhain yw:
* Rhaid i AOCC sicrhau ei fod yn gallu gofalu am y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedolwyd i'w ofal
* Rhaid i AOCC sicrhau ei fod yn cael ei weld yn berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol
* Rhaid i AOCC barhau i wneud ei gasgliadau, a'r wybodaeth sydd ynddynt, yn fwyfwy hygyrch
* Rhaid i AOCC hybu arweiniad a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant rheolaethol meddwl agored
* Rhaid i AOCC wella ei sail ariannu er mwyn gallu cyflawni ei flaenoriaethau

Cefnogir pob un o'r materion strategol gan amcanion tymor hir ac amcanion newid tymor byr. Un o'r amcanion newid a nodir yn y Cynllun corfforaethol yw gweithredu ar gasgliadau ymarfer ymgynghori AOCC i ddatblygu cynigion i wella arddangosfeydd celfyddyd yn yr Oriel Genedlaethol, a'r materion cyfochrol sy'n wynebu casgliadau cenedlaethol eraill AOCC sy'n cynnwys archeoleg a'r gwyddorau naturiol.

## Y Casgliadau Celfyddyd Cenedlaethol

Ar hyn o bryd mae gan AOCC:

* 1,645 o baentiadau olew
* 15,224 o ddyfrlliwiau a darluniau
* 15,000 o brintiadau
* 516 o gerfluniau
* 9,150 darn o grochenwaith a phorslen
* 1,510 darn o arian, gwydr a gwrthrychau celfyddydol cymwysedig eraill

Mae'r 42,000 darn o waith yn deillio o'r cyfnod canoloesol hyd at y presennol ac ar y cyfan yn Gymreig, yn Brydeinig neu o Gyfandir Ewrop.

Er mai canran cymharol fechan yw'r paentiadau olew a'r cerfluniau, ymhlith y rhain mae mwyafrif y gweithiau o werth a phroffil uchel. Cynrychiolir dros 900 o artistiaid unigol yn rhan hon y casgliad, tra bod 170 o weithiau eraill gan anhysbys, a adnabyddir drwy 'ysgol' neu wlad wreiddiol a dyddiad.

Fel sy'n wir yn achos pob math o gasgliadau amgueddfa cyhoeddus, nid ar gyfer arddangos y caffaelir pob darn. Er enghraifft ar gyfer cyfeirio ac ymchwil yn unig y cedwir llawer o ddyfrlliwiau, printiau a darluniau, a byddent yn cael eu niweidio'n sylweddol o'u harddangos am gyfnod hir.

## Cydbwysedd Cymreig/Rhyngwladol

Mae diffiniadau o 'Gelfyddyd Gymreig' yn anochel yn gymhleth. Ganwyd Josef Herman yng ngwlad Pwyl, bu farw yn Llundain ond fe'i dethlir am ei luniau o gymunedau glofaol Cymreig. Yn yr un modd, cydnabyddir artistiaid a anwyd yng Nghymru am eu gwaith mewn mannau eraill. Un o'r artistiaid mwyaf poblogaidd yn y casgliad yw Gwen John, oedd yn gweithio bron yn llwyr ym Mharis. A yw delwedd o'r 18fed ganrif o'r Eidal gan Thomas Jones neu Richard Wilson yn 'Gymreig'?

Mae AOCC yn ffafrio diffiniad yn seiliedig ar y cyfraniad a wnaed gan artistiaid i ddiwylliant gweledol Cymru, gartref ac yn rhyngwladol. I bwrpas ein polisi casgliadau, ystyriwn gweithiau celfyddyd yn 'Gymreig' os ydyn nhw

a) gan artistiaid a anwyd yng Nghymru, sydd â chefndir teuluol Cymreig neu wedi byw yng Nghymru am gyfnod hir; neu
b) os yw'r pynciau a ddarlunnir yn rhai Cymreig.

Ar sail y diffiniad hwn, mae ychydig dros hanner ein casgliad o baentiadau olew a cherfluniau (tua 1,200 o 2,200) yn gelfyddyd a cherfluniaeth 'Cymreig'. Yr un yw canran y gwaith a arddangosir. Daw llawer o weithiau eraill i AOCC o gasgliadau Cymreig.
.

## Cydbwysedd Cyfnod

Mae diffiniad o gyfnod yn llai cymhleth. Fodd bynnag dyma rai termau cyfnod a fedrai fod yn bwysig:

Derbynnir yn gyffredinol mai celfyddyd "hen" neu hanesyddol yw celfyddyd a wnaed cyn yr 20fed ganrif.

Derbynnir yn gyffredinol mai celfyddyd "fodern" yw celfyddyd o ddiwedd y 19eg a'r 20fed ganrif.

Celfyddyd "gyfoes" yw celfyddyd heddiw – h.y. celfyddyd a wnaed yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf gan artistiaid sydd yn fyw heddiw neu a fu farw yn ddiweddar.

Yn Rhan 1 gwnaed y sylw canlynol; tra bod cred weithiau mai prif ddiddordeb AOCC yw 'hen gelfyddyd', mewn gwirionedd mae dros hanner y casgliad celfyddyd gain yn perthyn i'r cyfnod ar ôl 1900, felly o ran nifer, mae gan AOCC fwy o gelfyddyd 20fed ganrif nag er enghraifft Oriel Genedlaethol Celfyddyd Fodern yr Alban.

## Cryfder y Casgliadau

Meysydd rhagoriaeth cydnabyddedig yw:
* y casgliad Davies o gelfyddyd Ffrengig 19eg ganrif (85 o weithiau gan artistiaid yn cynnwys Millet, Daumier, Manet, Renoir, Monet, Cezanne, Van Gogh, Degas a Rodin)
* 27 o baentiadau olew Richard Wilson, a chasgliad nad oes ei debyg o weithiau artistiaid Cymreig o'r 18fed a'r 19eg ganrif
* casgliad cynhwysfawr o weithiau artistiaid Cymreig o'r 20fed ganrif, gan gynnwys enwau mor amrywiol ag Augustus John, J. D. Innes, David Jones,  Cedric Morris, Ceri Richards ac Ernest Zobole
* casgliad da o 'Gerfluniaeth Newydd' o c.1900, (gan Gilbert, Leighton, Pegram ac eraill),  a dderbyniwyd gan fwyaf gan Sir William Goscombe John, a gyflwynodd lawer o enghreifftiau o'i waith  hefyd
* llawer o olygfeydd gwych o Gymru gan artistiaid Prydeinig o ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, o Sandby, Turner, Girtin a Cotman i David Cox, sy'n ffurfio rhan o'n daliadau mawr o weithiau topograffegol a thirluniol

Cryfderau eraill yw:

* nifer gymharol fechan, ond o safon uchel iawn, o baentiadau olew Ewropeaidd o'r 16eg i'r 20fed ganrif, (er enghraifft gan Claude, van de Capelle, Le Nain, Canaletto, Kokoschka a Magritte)
* portreadau mewn amrywiol gyfryngau o destunau Cymreig, o Iarll Penfro yn y 16eg ganrif i Aneurin Bevan a James Callaghan
* daliadau helaeth o weithiau tirluniol ar bapur a chynfas, gan artistiaid o'r 18fed i'r 20fed ganrif gan gynnwys gweithiau pwysig o Gainsborough, Turner a Girtin, i Nash a Hitchens
* cynrychiolaeth arbennig o gryf o weithiau ar bapur yn cynnwys dyfrlliwiau, darluniau a phrintiadau, gan gynnwys daliadau mawr oedd yn 'weddill stiwdio' Augustus John, Gwen John, Evan Walters a Ray Howard Jones; a deunydd o gasgliad personol Graham Sutherland

Gan AOCC mae un o'r prif gasgliadau cyhoeddus o serameg yn y DU:
* y casgliad o grochenwaith a phorslen (3,000 darn) a wnaed yn ffatrïoedd De Cymru rhwng y 1760au a'r 1920au yw'r mwyaf a'r mwyaf cynhwysfawr yn y byd
* mae'r casgliad o Borslen Cyfandirol 18fed ganrif (dros 2,000 darn a roddwyd gan W S de Winton) o safon uchel a phwysigrwydd rhyngwladol
* mae'r casgliad mawr o serameg Seisnig (3,000 darn) yn cynnig gorolwg o grochenwaith a ddefnyddid drwy Brydain o ddiwedd y canol oesoedd hyd at y presennol

Mae AOCC hefyd yn casglu arian, gwaith metel wedi japanio, gemwaith, gwydr, enamel, dodrefn, ifori, arenfaen dwyreiniol ac amrediad o ddeunydd crefft Cymreig
* mae'r casgliad arian (300 gwrthrych) o safon uchel, ac yn cynnwys darnau pwysig a wnaed i noddwyr Cymreig. Fe'i cefnogir gan y casgliad a ffurfiwyd gan Sir Charles Jackson (rhoddwyd ar fenthyg ym 1922, caffaelwyd rhan yn 2001), a gan eiddo benthycwyr eraill, yn bennaf yr Eglwys yng Nghymru

## Gwendidau'r Casgliadau

Yn hanesyddol, mae'r casgliadau Celfyddyd Gain (paentiadau, dyfrlliwiau a cherfluniau) wedi tyfu i raddau helaeth drwy roddion (e.e. cymynrodd y chwiorydd Davies) yn hytrach na gweithio'n benodol tuag at yr amcanion a nodwyd yn Siarter AOCC. Gwelir gwendid y casgliad ym maes Hen Feistri, celfyddyd Brydeinig o'r 19eg ganrif a chelfyddyd 20fed ganrif o'r tu allan i Gymru, yn enwedig y cyfnod ar ôl y rhyfel a'r cyfnod cyfoes.

Nid yw'n bosibl i AOCC gaffael llawer o gerfluniaeth fodern oherwydd y gofod sydd ar gael ar gyfer arddangos a storio. Gan fod cerfluniaeth mor ganolog i gelfyddyd fodern a chyfoes, mae i hyn effaith uniongyrchol ar safon y daliadau yn y meysydd hyn, a gallu AOCC i ddangos rhai o'r artistiaid mwyaf adnabyddus.

Ym maes Celfyddyd Gymwysedig, yn y gorffennol mae AOG wedi canolbwyntio ar serameg ac arian, tra bod dodrefn yn cael ei gasglu yn AWC. Canlyniad hyn yw bod nifer o fylchau ac anghysonderau. Lle mae casgliadau AOG wedi ffocysu ar gynllun, mae rhai AWC yn ymwneud â defnydd ac arwyddocâd cymdeithasol. Mae'r casgliadau o ddefnydd modern a chyfoes, er iddynt gael eu cryfhau yn ddiweddar, yn parhau yn anghyson. Unwaith eto golyga hyn nad yw llawer o ffigurau mwyaf adnabyddus bywyd modern a chyfoes yn cael eu cynrychioli, neu ddim yn cael eu cynrychioli'n gyson.

## Polisi Caffael AOCC

Tynnwyd y nodiadau canlynol o 'Polisi Caffael a Gwaredu ar gyfer y Casgliadau Celfyddyd' (1998) AOCC, sy'n amlinellu'r meysydd y mae'n bolisi gan AOCC gasglu ynddynt. Adolygir a diweddarir polisïau o'r fath bob 5 mlynedd. Yn hyn, arweinir Cyngor AOCC – ei gorff ymddiriedolaethol – gan banel annibynnol o bobl broffesiynol ac arbenigwyr yn ogystal â staff.

Ceisia AOCC wella ei ddaliadau o weithiau o werth artistig sylweddol a phwysigrwydd hanesyddol i Gymru:
* gweithiau gan artistiaid a gwneuthurwyr Cymreig, ac artistiaid a gwneuthurwyr sydd yn gweithio neu sydd wedi gweithio yng Nghymru o'r cyfnod ôl-ganoloesol hyd at y presennol

* gweithiau yn adlewyrchu effaith Cymru, ei thirwedd, ei hanes a'i diwylliant ar artistiaid gweledol a gwneuthurwyr yr un cyfnod
* gweithiau sydd yn arwyddocaol fel adlewyrchiad o hanes nawdd Cymreig a phatrymau casglu
* portreadau lle mae i'r eisteddwyr neu'r artistiaid arwyddocâd i Gymru, a lle mae'r portread o bwys artistig ac nid o arwyddocâd dogfennol yn unig

## Celfyddyd Brydeinig ac Ewropeaidd (1500 - 1900)

Cred AOCC fod gan bobl Cymru yr hawl i weld y gelfyddyd orau o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, ychydig mae'n ei gasglu yn y maes, gan ganolbwyntio ar weithiau unigol o safon ac arwyddocâd  uchel. Cydlynir casglu gyda sefydliadau cenedlaethol eraill er mwyn cynyddu mynediad cyhoeddus i gelfyddyd o bob cyfnod ar draws y Deyrnas Unedig. Mae celfyddyd uchel o'r Dadeni (sydd wedi'i gynrychioli yn ardderchog yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain) felly yn flaenoriaeth is na thirluniau diweddarach, un o gryfderau cyfredol AOCC.

Un maes gwan y mae AOCC am ei wella yw'r daliadau o gelfyddyd Brydeinig diwedd y 19eg ganrif, a hynny er mwyn cynnig cyd-destun mwy pwrpasol i'r casgliadau rhagorol o gelfyddyd Ffrengig y cyfnod hwnnw.

Ceisia AOCC gaffael gweithiau pwysig o unrhyw gyfnod sydd â chysylltiad arwyddocaol â Chymru.

## Celfyddyd Fodern a Chyfoes (1900 hyd at y presennol)

Ers y 1970au, bu AOCC yn canolbwyntio yn gynyddol ar gasglu celfyddyd 20fed ganrif. Yn y 1970au cynnar derbyniodd AOCC gynnydd yn y Grant Pwrcasu Enghreifftiau er mwyn adeiladu casgliad o gelfyddyd fodern. Dros y degawd diwethaf, gwnaeth AOCC nifer o gaffaeliadau 20fed ganrif, gan gynnwys gwaith gan David Jones, Stanley Spencer, Lucian Freud, David Hockney a Frank Auerbach.  Mae hefyd yn caffael yn gyson waith cyfoes gan artistiaid yng Nghymru, ac ar fin derbyn tua 450 o baentiadau a cherfluniau gan artistiaid o'r 1950au hyd at y 1970au gan Gyngor Celfyddydau Cymru. .

## Polisïau Casglu AOCC a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Y sefydliad cenedlaethol arall sy'n casglu deunydd gweledol yng Nghymru yw'r Llyfrgell Genedlaethol. Fodd bynnag mae'r Llyfrgell yn canolbwyntio yn bennaf ar gaffael gweithiau er mwyn cofnodi eu testun yn hytrach nag adeiladu casgliad sy'n cynrychioli enghreifftiau o waith artistiaid. Mae'n casglu enghreifftiau o dopograffeg a thirlun Cymreig, a delweddau o bobl Gymreig, gan gynnwys darluniau yn yr ystyr o hanes cymdeithasol ac amodau byw yn ogystal â phortreadau ffurfiol, oll â bwriad dogfennol. Yn bennaf, mae'r Llyfrgell yn casglu darluniau, printiadau, portreadau, paentiadau a deunydd graffeg byrhoedlog, ynghyd â ffotograffau. Mae'r rhan fwyaf o'r casgliad yn deillio o'r cyfnod ar ôl 1750, ac adlewyrcha'r gelfyddyd gyfoes sydd yn y casgliad yr un diddordebau a phwyslais.

Awgrymwyd yn y gorffennol nad oes angen i'r ddau sefydliad cenedlaethol gasglu deunydd a allai fod yn gymharus. Fodd bynnag, roedd yr Adolygiad Pum Mlynyddol annibynnol diweddar AOCC yn glir yn ei gasgliad fod gan y ddau sefydliad bolisïau cyflenwol yn hytrach na gorgyffyrddol, bod y ddau staff yn gweithio yn agos â'i gilydd ac nad oedd achos dros aildrefnu swyddogaethau.

## Realiti Caffael

Mae egwyddorion arweiniol diweddar wedi cynnwys canolbwyntio ar ffigurau allweddol mewn celfyddyd Brydeinig ers y rhyfel  yn ogystal ag arolwg bron yn gyflawn o waith cyfoes o Gymru. Golyga partneriaeth yr Amgueddfa gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams fod yr adnoddau ar gyfer casglu gweithiau celfyddyd o'r 20fed ganrif, hyd yn ddiweddar, yn well na'r rhan fwyaf o gasgliadau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (ag eithrio'r Tate ac Orielau Cenedlaethol yr Alban). Bydd cynhwysiad arfaethedig tua 450 o weithiau o gasgliad Cyngor Celfyddydau Cymru i gasgliad cyfredol AOCC yn cryfhau ymhellach daliadau gwaith Artistiaid Cymreig hyd at y 1970au.

Gosododd Rhan 1 yr Ymgynghoriad bwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd cael strategaeth glir ar gyfer casglu ac arddangos gweithiau celfyddyd ar ôl 1945, ac wedi ailgadarnhau mai AOCC ddylai fod yn brif gorff ar gyfer casglu gweithiau celfyddyd fodern a chyfoes yng Nghymru.

Er hyn, rhaid i AOCC fod yn fanteisgar. Pan fydd rhoddion a chymynroddion yn cael eu cynnig sy'n gweddu i bolisi cyffredinol o'r fath, cant eu derbyn, hyd yn oed os nad ydynt yn helpu AOCC i gyflawni ei flaenoriaethau caffael.

Mae egwyddorion arweiniol diweddar wedi cynnwys canolbwyntio ar ffigurau allweddol mewn celfyddyd Brydeinig ers y rhyfel yn ogystal ag arolwg bron yn gyflawn o waith cyfoes o Gymru. Golyga partneriaeth yr Amgueddfa gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams fod yr adnoddau ar gyfer casglu gweithiau celfyddyd o'r 20fed ganrif, hyd yn ddiweddar, yn well na'r rhan fwyaf o gasgliadau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (ag eithrio'r Tate ac Orielau Cenedlaethol yr Alban). Bydd cynhwysiad arfaethedig tua 450 o weithiau o gasgliad Cyngor Celfyddydau Cymru i gasgliad cyfredol AOCC yn cryfhau ymhellach daliadau gwaith Artistiaid Cymreig hyd at y 1970au.

Gosododd Rhan 1 yr Ymgynghoriad bwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd cael strategaeth glir ar gyfer casglu ac arddangos gweithiau celfyddyd ar ôl 1945, ac wedi ailgadarnhau mai AOCC ddylai fod yn brif gorff ar gyfer casglu gweithiau celfyddyd fodern a chyfoes yng Nghymru.

Er hyn, rhaid i AOCC fod yn fanteisgar. Pan fydd rhoddion a chymynroddion yn cael eu cynnig sy'n gweddu i bolisi cyffredinol o'r fath, cant eu derbyn, hyd yn oed os nad ydynt yn helpu AOCC i gyflawni ei flaenoriaethau caffael.

### Gwaredu Gweithiau yn y Casgliadau

Mae "rhagdybiaeth yn erbyn gwaredu" yn holl Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Prydain. Yn aml deellir y datganiad hwn i olygu nad yw Amgueddfeydd yn cael gwared o eitemau o'u casgliadau. Mewn gwirionedd, dyna sy'n digwydd ar adegau, pan, er enghraifft ceir dyblygu eitemau nad ydynt yn unigryw.

Er mwyn sicrhau polisi clir a chysylltiol ar draws y DU, mae Cynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol ar hyn o bryd yn cynhyrchu strategaeth genedlaethol ar waredu. Mae AOCC yn aelod o'r gweith-gor fydd yn adrodd yn 2002. Yn y cyfamser mae gan AOCC bolisïau yn llywio gwaredu sy'n adlewyrchu ei gyfrifoldeb i genedlaethau'r dyfodol. Er fod nifer fechan o eitemau yn cael eu gwaredu o gasgliadau AOCC bob blwyddyn, ni fu gwaredu yn ddiweddar o'r casgliadau celfyddyd.
.

## Adnoddau i'r casgliadau

### Adnoddau caffael

Gwelodd Grant Pwrcasu Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Grant Pwrcasu Enghreifftiau (SPG) ar gyfer holl weith-garedd casglu AOCC yn cael ei osod ar £1.075 miliwn yn ddiweddar. Gosodir cyfran yr Adran Gelfyddyd o'r grant hwn ar hyn o bryd ar £200,000, ar wahân i'r ddarpariaeth ychwanegol achlysurol oddi mewn i'r grant ar gyfer eitemau unigol pwysig.

Dros y pum mlynedd diwethaf, cyfanswm y gwariant o'r SPG ar weithiau celfyddyd oedd £2.55 miliwn, tua 35% o gyfanswm y Grant Pwrcasu Enghreifftiau.

Mae'n amlwg nad dyma'r unig ffynhonnell cyllid sydd ar gael i AOCC. Mae gan AOCC gyfrifoldeb i ddefnyddio'r SPG i ddenu rhagor o gyllid neu gefnogaeth ato ac i Gymru ar gyfer y casgliadau cenedlaethol. Dros y pum mlynedd diwethaf:
* Rhoddwyd neu cymynroddwyd £0.5 miliwn i AOCC i bwrcasu gweithiau celfyddyd
* Sicrhawyd £0.615 miliwn fel cyllid punt am bunt ar gyfer pwrcasu celfyddyd fodern gan Ymddiriedolaeth Derek

Williams
* Dyfarnwyd £2.35 miliwn gan gyrff fel Cronfa Genedlaethol Casgliadau Celfyddyd a Chronfa Treftadaeth y Loteri i bwrcasu gweithiau celfyddyd
* Crëwyd 'pwer pwrcasu' o £0.25 miliwn yn ychwanegol drwy ostyngiadau prisiau a sicrhawyd o dan broses gwerthiant cytundeb preifat y Llywodraeth

Mae AOCC yn falch o'i record yn denu grantiau allanol. Denodd y £2.55 miliwn o arian SPG a roddwyd i gelfyddyd dros y pum mlynedd diwethaf £3.71 miliwn yn ychwanegol mewn grantiau i Gymru. Fodd bynnag dylid nodi, gall polisïau a blaenoriaethau'r cyrff sy'n dyfarnu'r grantiau fynd yn erbyn rhai AOCC o dro i dro a dod i mewn â dylanwad o'r tu allan i Gymru.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gweithiau a roddwyd, cymynroddwyd neu a ddosbarthwyd gan y Llywodraeth yn lle trethi. Mae dymuniad rhoddwyr i gyflwyno gweithiau yn aml yn dibynnu ar allu AOCC i ofalu amdanynt, eu harddangos a'u dehongli, ac i ychwanegu atynt drwy bwrcasu.

## Adnoddau ymchwil

Mae materion adnoddau eraill – yn benodol lefelau staff, gofod storio ac adnoddau cadwraeth. Mae gan yr Adran Gelfyddyd dri Curadur Celfyddyd Gain, sy'n gweithio bron yn llwyr ar baratoi arddangosfeydd a rhaglenni addysg y cyhoedd. Mewn cymhariaeth, mae gan Orielau Cenedlaethol Yr Alban 20 o staff i wneud hyn. Mae ganddo ddau guradur ar gyfer Celfyddyd Gymwysiedig a Chrefft, tra bo gan Amgueddfa Frenhinol yr Alban 16.

O ganlyniad, mae proffil ymchwil yr Adran Gelfyddyd yn isel iawn o'i gymharu â disgyblaethau eraill AOCC, ac mae gwaith ymchwil y gellid, ac y dylid ei wneud o fewn y sefydliad naill ai yn aros heb ei wneud neu yn cael ei wneud mewn mannau eraill. Gwnaed achos darbwyllol yn ystod Rhan 1 i'r Amgueddfa fod yn ganolfan ymchwil yn gweithio gyda phartneriaid yn y maes addysg uwch, ag ymchwil i ddiwylliant gweledol Cymru. Dylai gwella adnoddau storio a staffio i wneud gweithiau celfyddyd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ar gyfer ymchwil o bob math fod yn flaenoriaeth, a daw yn fwy pwysig gyda chaffaeliad Casgliad Cyngor y Celfyddydau.

## Adnoddau cadwraeth

Yn nhermau cadwraeth celfyddyd, mae gan AOCC dri staff – ar gyfer paentiadau îsl, gweithiau ar bapur a chelfyddyd gymwysedig a cherfluniaeth. Mae dau dechnegydd celfyddyd, sy'n delio â'r holl fframio, mewnosodiadau a symud gweithiau. Mae adnoddau gweddill storio AOCC yn gyfyngedig heb ddim lle i estyn.

Mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu ar allu ymarferol AOCC i gaffael a chael effaith sylweddol ar weithredu'r polisïau mynediad.

## Arddangos y casgliadau

Polisi AOG yw sicrhau mynediad i'w gasgliadau i bawb o fewn cyfyngiadau rhesymol adnoddau, cadwraeth a diogelwch. Golyga fynediad corfforol i wrthrychau; a defnydd deallusol ac addysgol o wybodaeth amdanynt. Gellir cynnig mynediad corfforol drwy arddangos, arddangosfeydd dros dro, benthyciadau a mynediad i gasgliadau astudio a chyfeiriol.

Cyfyngwyd ar AOCC yn ddifrifol gan brinder gofod arddangos hyd at 1993 pan ychwanegwyd chwe oriel i'r llawr cyntaf yn AOG fel rhan o'r cam datblygiad hwnnw. Er hyn mae gofod yn dal i fod yn brin, yn arbennig i gelfyddyd a wnaed ers 1950. Fodd bynnag clôdd y datblygiad hwn yr arddangosfeydd mewn trefn benodol, ac ni chynhwysai unrhyw ofod storio newydd.

## Cryfder yr Arddangosfeydd

Llenwa orielau celfyddyd gain a chelfyddyd gymwysedig AOCC ddwy ran o dair o lawr cyntaf AOG. Ar y cyfan, mae'r rhain o safon uchel (wedi'u hawyru ac â goleuo soffistigedig), a chynhwysant gasgliadau o gyfoeth a safon arbennig.

Mae AOG yn cynnwys arddangosfa ragorol o gelfyddyd Gymreig yn ei chyd-destun rhyngwladol. Mae grwpiau mawr o weithiau gan artistiaid Cymreig diffiniadol fel Richard Wilson, Thomas Jones, Penry Williams, John Gibson, Augustus a Gwen John a Ceri Richards, yn ogystal ag enghreifftiau o waith gan artistiaid cyfoes fel Siani Rhys James, James Rielly, Lois Williams, Bethan Huws a David Nash.

Mae'r oriel sy'n cynnwys gwaith y 18fed ganrif yn arbennig o bwysig, lle gellir gweld dylanwad y casglwr mawr Sir Watkin Williams-Wynn. Mewn orielau cyfagos mae gwaith yr holl brif Argraffiadwyr, cymynrodd y chwiorydd Davies o Landinam, y rhodd ddiwylliannol unigol mwyaf erioed i'r genedl Gymreig.
Cyflwynwyd yr arddangosfeydd newidiol yn yr Oriel 'Celfyddyd yng Nghymru' ym 1998. Maen nhw'n cynnig lle i arddangos benthyciadau ac arddangosfeydd dros dro yn ymwneud yn benodol ag agweddau o hanes ac ymarfer maes y celfyddydau gweledol yng Nghymru ac am Gymru, yn y gorffennol ac yn y presennol. Gwnaeth lawer i dynnu sylw at y celfyddydau gweledol Cymru, er gwaethaf rhai sylwadau ei fod yn eu gwahanu oddi wrth yr arddangosfeydd craidd mewn ffordd artiffisial. Profodd rhaglen o arddangosfeydd dros dro o ddeunydd ar bapur yn Orielau 8 a 9 hefyd yn boblogaidd ag ymwelwyr.

## Gwendid yr Arddangosfeydd

Dynododd Rhan 1 yr ymgynghoriad nifer o feirniadaethau a wneir o dro i dro o agwedd AOCC tuag at arddangos gweithiau celfyddyd. Mae'n werth eu harchwilio yn eu tro.

Y cyntaf yw'r arddangosfeydd anhyblyg nad ydynt yn newid. Mae ymwelwyr yn gwneud sylwadau ar brydferthwch a chyfoeth y gweithiau eu hunain, ond hefyd ar brinder yr amrywiaeth sydd i'w weld.

Ar hyn o bryd gosodir yr arddangosfeydd yn ôl eu cyfnod, fel y bu'n draddodiadol i gasgliadau Ewropeaidd cenedlaethol. Er nad yw arbrofion eraill ag arddangosfeydd hollol thematig wedi bod yn gyson lwyddiannus, mae orielau hyblyg sydd â fframwaith cronolegol sydd hefyd yn gwahodd yr ymwelydd i archwilio themâu croesdoriadol yn profi'n boblogaidd. Mae'r arddangosfeydd newidiol yn yr Oriel Celfyddyd yng Nghymru (a agorwyd ym 1998) a'r sioe hyblyg o gelfyddyd gyfoes yn Oriel 16 (a agorwyd yn 2001) ill dau wedi profi'n boblogaidd. Fodd byddag mae orielau presennol AOG gyda'u cymeriad pensaernïol cryf yn milwriaethu ar hyn o bryd yn erbyn estyn yr agwedd fwy hyblyg hon.

Yr ail feirniadaeth yw fod yr orielau darluniau a'r arddangosfeydd Celfyddyd Gymwysedig ill dau yn orlawn. Tra bod dwy neu dair rhes o baentiadau ar wal yn gweithio'n dda ar gyfer gwaith o'r 16eg – 19eg ganrif, cydnabydda AOCC fod hongian o'r fath yn anaddas ar gyfer gweithiau mwy modern a chyfoes. Fodd bynnag erys yn bwysig fod cymaint o'r casgliad ag sy'n bosibl yn cael ei weld gan y cyhoedd.

Y trydydd maes beirniadaeth yw, mewn effaith, fod AOCC yn ceisio cyflawni gormod. Mae yna bobl sy'n credu y dylai AOG fod yn Oriel Genedlaethol, yn dangos hanes yr holl gelfyddyd hyd at y presennol. Mae eraill sy'n credu y dylai fod yn oriel sy'n dangos celfyddyd Cymru yn unig. Mae rhai yn feirniadol o'i wendid fel oriel gelfyddyd fodern ac eraill yn feirniadol o'r diffyg pwyslais ar gelfyddyd gyfoes.

Tra bod ymgynghoriad Rhan 1 yn pwysleisio ei bod yn hanfodol i unrhyw Amgueddfa gelfyddyd bwysleisio "y peth go iawn", mae mynediad rhithiol yn cynnig llawer o gyfleon newydd i greu mynediad ac i hwyluso cyflwyno golygon newidiol.
.

### Canran o Gelfyddyd Gymreig sy'n cael ei Harddangos

* O'r casgliadau celfyddyd gymwysedig, mae tua 3,000 o'r 10,000 o ddarnau yn y casgliadau i'w gweld, ac o'r rheiny, mae tua 50% naill ai wedi'u gwneud yng Nghymru, neu wedi'u gwneud ar gyfer pobl Gymreig.
* Efallai fod tri chwarter o'r 30,000 o weithiau celfyddyd ar bapur yn weithiau gan artistiaid Cymreig neu yn dangos pobl a lleoliadau Cymreig. Fodd bynnag mae'n ymarfer rhyngwladol cydnabyddedig na ddylid arddangos gweithiau celfyddyd ar bapur yn barhaol gan fod golau yn pylu pigmentau ac yn diraddio ac yn llychwino papur. Yn wir ni ddylid arddangos dyfrlliwiau am fwy na phedwar mis pob pedair blynedd. Mae'r gweithiau hyn yn gasgliad cyfeiriadol defnyddiol (ar gael drwy drefniant yn ein Ystafell Astudio Printiadau a Darluniau) ac yn adnodd ar gyfer arddangosfeydd dros dro, ac ar y cyfan rydym yn arddangos tua saithdeg i gant ohonynt ar unrhyw adeg. Mae pob un ar gael i ymchwilwyr drwy drefniant.
* O'r tua 2,200 o baentiadau olew a cherfluniau yn y casgliadau, arddangosir tua 500 o baentiadau yn AOG ynghyd â thua 188 o gerfluniau. O'r tua 700 o weithiau hyn, ar hyn o bryd mae 364 (hanner y cyfanswm) o darddiad neu ysbrydoliaeth Gymreig:
* mae 215 gan artistiaid a ystyrir yn Gymreig drwy enedigaeth neu fabwysiadu
* mae 98 yn bortreadau o Gymry
* mae 51 yn dirluniau Cymreig

### Canran o Gelfyddyd Hanesyddol, Modern a Chyfoes sy'n cael eu Harddangos

Mae tua thraean o'r paentiadau a'r gerfluniaeth sy'n cael eu harddangos yn dyddio ar ôl 1900. Fodd bynnag, canran fechan yn unig o'r rhain sydd yn ddiweddarach na'r 1950au, wedi'u canoli mewn un gofod yn yr arddangosfeydd.

### Canran o Weithiau Celfyddyd sy'n cael eu Harddangos ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae 40% o'r paentiadau olew a'r cerfluniau sydd ym meddiant AOCC yn cael eu harddangos yn gyffredinol yng Nghymru ar unrhyw adeg - tua 30% yn AOG, 10% mewn mannau eraill. O'r 60% sydd naill ai yn cael eu cadw neu eu storio, mae tua thraean (tua 450 o weithiau) yn addas (yn nhermau safon a chyflwr) i'w harddangos. Mae'r ganran ar gyfer celfyddyd gymwysedig yn debyg. Ystadegyn mwy ystyrlon o bosibl yw bod 65% o'r casgliadau y gellir eu harddangos yn barhaol i'w gweld.

## Polisi Benthyciadau

### Benthyciadau allan

Fel y Polisi Arddangos, cyfyngir y Polisi Benthyciadau gan adnoddau. Egwyddor y polisi ar fenthyciadau tymor hir yw y benthycir unrhyw waith sy'n ffit i deithio ac yn ffit i'w arddangos i unrhyw leoliad sy'n cwrdd ag anghenion cynllun indemniad y llywodraeth. Yr unig gyfyngiad yw nad yw hyn yn cyfaddawdu arddangosfeydd AOCC ei hun.

Yn ymarferol, nifer cyfyngedig o leoliadau sydd yna yng Nghymru a all gwrdd â'r anghenion caeth hyn ar hyn o bryd, fel arfer oherwydd lefel y diogelwch a'r rheolaeth amgylchedd. Gyda'r adnoddau presennol, mae gan AOCC ar hyn o bryd 164 o weithiau ar fenthyciad tymor hir i Amgueddfeydd ac adeiladau cyhoeddus eraill, gyda tua 205 o fenthyciadau tymor byr yn flynyddol i arddangosfeydd dros dro. Mae AOCC hefyd yn benthyca y tu allan i Gymru ac yn cyfrannu'n gyson i arddangosfeydd pwysig yn Ewrop, Gogledd America a'r Dwyrain Pell.

Hoffai AOCC gyfrannu yn fwy gweithredol mewn rhaglen o fenthyciadau a chydweithio yng Nghymru ar draws ei feysydd casglu, gan gynnwys archeoleg a'r gwyddorau. Mae eisoes yn trafod gyda lleoliadau yng Nghymru, mewn cyd-destunau disgyblaethau unigol ac aml-ddisgyblaethol. Daethpwyd i gytundeb amlinellol gyda phartneriaid yn Sir Benfro yn ddiweddar, dan arweiniad Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'n galluogi i fenthyca casgliad Sutherland i leoliad newydd arfaethedig yn Nhyddewi.

Yr agwedd gadarnhaol hon yw un o'r egwyddorion arweiniol wrth ddatblygu'r Rhaglen Bartneriaeth. Fodd bynnag er mwyn cyflawni hyn mae angen rhagor o fuddsoddi cyfalaf a refeniw parhaus yn lleol mewn Amgueddfeydd, orielau a safleoedd eraill, a buddsoddiad sylweddol yn Adran Gelfyddyd a Chanolfan Gasgliadau presennol AOCC er mwyn gwasanaethu a chynnal rhaglenni o'r fath.

Mae her yma i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus annibynnol i ddod ag amgueddfeydd ac orielau lleol i safon sy'n golygu eu bod yn addas i gartrefu gweithiau o'r casgliad cenedlaethol. Rhoddodd y Gweinidog Diwylliant hwb i'r broses drwy ryddhau cyllid ychwanegol i Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru i'w galluogi i ddynodi a datblygu cynlluniau peilot ar gyfer benthyca i amgueddfeydd lleol – un yng nghanolbarth Cymru ac un yng ngogledd ddwyrain Cymru – er mwyn dechrau gwella eu rhaglenni i gyrraedd at safon sy'n eu galluogi i arddangos eitemau a gweithiau o AOCC. Cynigia adroddiad Pratley i Gyngor Celfyddydau Cymru agwedd ochrol i bartneriaethau â'r sector celfyddydau gweledol.

### Benthyciadau i mewn

Ar hyn o bryd mae AOCC yn arddangos 326 o fenthyciadau (gwaith arian gan fwyaf). Fodd bynnag mae anhyblygrwydd y prif orielau yn cyfyngu'r rhaglen dderbyn benthyciadau.

Ceisia AOCC amnewid gweithiau pan yw'n addas i wneud hynny, gan fenthyca yn rhyngwladol gan y rhai y benthycir iddynt.  Enghraifft ddiweddar yw Cerddorfa'r Opera gan Degas a fenthycwyd gan y Musée d'Orsay, yn amnewid am waith gan Daumier a fenthycwyd gan AOCC.

Fel prif orielau celfyddyd eraill, mae AOCC hefyd yn defnyddio benthyciadau i lenwi bylchau yn ei ddaliadau ei hun. Gall y rhain fod yn rai tymor hir, fel Six Bells, Abertyleri gan L.S. Lowry. Gallant hefyd fod yn rai tymor byr fel y benthyciadau gan Gyngor y Celfyddydau Lloegr o weithiau gan Mona Hatoum a Permindar Kaur, artistiaid Prydeinig ifanc o gymunedau lleiafrifol a astudiodd ac a weithiodd yng Nghymru

Yn drydydd, mae AOCC yn benthyca rhai cannoedd o weithiau bob blwyddyn ar gyfer arddangosfeydd dros dro yn y brif oriel arddangos, Oriel Celfyddyd yng Nghymru ac Orielau 8 a 9.

## Mynediad Rhithiol

Fel y nodwyd uchod, mae mynediad rhithiol yn creu amrediad eang o gyfleon i amgueddfeydd ac orielau. Polisi AOCC yw sicrhau y bydd yr holl weithiau celfyddyd gain a chelfyddyd gymwysedig y mae'n bosibl eu hatgynhyrchu yn ddigidol yn cael eu cynnwys yn y pen draw mewn rhestr gyflawn ar ein gwefan. Bydd delweddau o 500 o baentiadau a cherfluniau ar gael i'r cyhoedd drwy wefan AOCC y gwanwyn hwn (2002).

Bydd Polisi caffael celfyddyd AOCC yn cael ei adolygu nesaf yn 2003 sydd yn amserol yn nhermau'r ymarfer ymgynghori hwn.

Yn amlwg mae datblygiadau'r dyfodol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn anodd i'w darogan. Fodd bynnag mewn gwlad sydd yn cael ei herio gymaint gan ei isadeiledd trafnidiaeth, mae buddsoddi mewn TGCh i gyflenwi mynediad rhithiol gwell yn amlwg yn hanfodol.

Nid yw hyn yn golygu datblygu gwefan AOCC yn unig – er fod hyn yn flaenoriaeth tymor byr. Mae mynediad deallusol yn cael ei wella gan ryngweithio. Mae AOCC wedi gwneud buddsoddiad cynnar ym mhotensial TGCh ryngweithiol gyda Phrosiect Cambrensis, menter fideogynadledda sy'n cysylltu ysgolion ledled Cymru ag addysgwyr ac arbenigwyr AOCC. Dyma'r math o gyfle mynediad ymatebol a deallusol fydd AOCC yn ceisio ei ddatblygu.

# Arddangosfeydd newydd

Dechreuodd gwaith yn 2000 gydag ailhongian y Portreadau Cymreig cynnar yn Oriel 2 AOG, ac yn 2001 gyda newidiadau i Oriel 16 i hwyluso sioeau thematig newidiol. Gall y gwaith hwn barhau ar y cyflymder hwn neu, wrth gwrs, gael ei gyflymu gyda chynnydd mewn adnoddau.

Mae taith awdio yn cael ei chomisiynu ar gyfer AOG. Bydd yn cwmpasu'r holl orielau, yn gelfyddyd ac amgueddfa a chaiff ei chynllunio o safbwynt ymwelydd am y tro cyntaf er mwyn sicrhau hwylustod defnydd. Bydd hefyd yn cynnig haenau o wybodaeth i sicrhau y bydd hefyd yn darparu ar gyfer ymwelwyr sy'n dod yn ôl ac arbenigwyr yn eu meysydd.

Ni fydd canllawiau awdio a dehongli cyfrifiadurol yn cael eu datblygu ar draul yr arweinwyr dynol. Canmolwyd staff AOCC ar draws y DU am eu cyfeillgarwch, eu harbenigedd a'u ffocws ar anghenion yr ymwelydd. Parheir i ddatblygu'r diwylliant hwn sy'n canolbwyntio ar yr ymwelydd ar y cyd â thechnegau dehongli 'technoleg isel' fel llwybrau a labelu gwell.

# Safleoedd

Yn y fan yma, mae'n werth crynhoi cryfderau a gwendidau'r safleoedd presennol yn nhermau arddangos celfyddyd ledled Cymru. Nid oedd ymgynghorwyr Rhan 1 yn eu cyfyngu eu hunain i ddadansoddiad o safleoedd AOCC. Yn wyneb Rhaglen Bartneriaeth ddatblygol AOCC, cytuna AOCC ei bod yn hanfodol ei fod yn archwilio ei eiddo ei hun yng nghyd-destun safleoedd a gynigir gan bartneriaid arfaethedig.Yn y fan yma, mae'n werth crynhoi cryfderau a gwendidau'r safleoedd presennol yn nhermau arddangos celfyddyd ledled Cymru. Nid oedd ymgynghorwyr Rhan 1 yn eu cyfyngu eu hunain i ddadansoddiad o safleoedd AOCC. Yn wyneb Rhaglen Bartneriaeth ddatblygol AOCC, cytuna AOCC ei bod yn hanfodol ei fod yn archwilio ei eiddo ei hun yng nghyd-destun safleoedd a gynigir gan bartneriaid arfaethedig.

### Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd

Cychwynnwyd ar y strwythur clasurol hwn ym 1912, ac fe'i estynnwyd ar wahanol adegau hyd at 1933. Mae cyflwr yr adeilad yn amrywio llawer yn ôl cyfnod yr adeiladu. Mae'r Orielau Celfyddyd, a adnewyddwyd ac estynnwyd ym 1988-93, wedi'u hawyru; fodd bynnag mae rhannau eraill o'r adeilad yn dioddef o dd_r yn dod i mewn a heb fod ag unrhyw reolaeth amgylcheddol.

Mae'r Casgliadau Celfyddyd yn llenwi tua 3,000 metr sgwâr o ofod arddangos/cylchdroi, gyda 400 metr sgwâr ychwanegol i storio, a 550 metr sgwâr ar gyfer stiwdios, swyddfeydd a gweithdai. Cynhwysa wyth oriel yn yr Adain Ddwyreiniol adnewyddedig arddangosfeydd 'parhaol' o baentiadau, cerfluniaeth a chelfyddyd gymwysedig, a defnyddir dwy arall ar gyfer arddangosfeydd newidiol o weithiau ar bapur. Ym 1993, ychwanegwyd chwe oriel 'barhaol' arall a rotwnda cerfluniaeth yn estyniad y Clôs. Dangosir y Celfyddydau cymwysedig mewn cyfres o goridorau ac orielau. Yr unig oriel gelfyddyd gymwysedig benodol yw'r Oriel Serameg Cymreig oddi ar y prif gyntedd, a sefydlwyd ym 1992. Adnewyddwyd yr Oriel Celfyddyd yng Nghymru ym 1998 fel gofod arddangos dros dro.

Er i raglen adeiladu 1988-93 alluogi'r Adran Gelfyddyd i arddangos rhan sylweddol o'i chasgliad o baentiadau a cherfluniaeth hyd at tua 1950, nid oedd yn darparu gofod ar gyfer unrhyw arddangosfa sylweddol o gelfyddyd a grëwyd ar ôl 1950. Nid oedd chwaith yn darparu dilyniant o brif orielau a orielau "cabinet" bychain cysylltiedig, fyddai'n galluogi arddangos grwpiau 'dwfn' o waith i ychwanegu at y prif arddangosfeydd. Bydd Orielau presennol AOG, a adeiladwyd i gartrefu casgliad cyn 1970, yn dyfod yn fwyfwy anaddas i ymarfer celfyddydol (a thechnegau addysgiadol) yr 21fed ganrif. Yn ychwanegol i'r tair oriel arddangos dros dro a ddisgrifir yma,, mae gan yr Adran Gelfyddyd fynediad cyson i brif orielau arddangos dros dro AOG, sydd yn 700 metr sgwâr, y gofod mwyaf o'i fath yng Nghymru.

### Oriel Ty Turner

Lleolwyd ym Mhenarth, Bro Morgannwg, ac adeiladwyd ym 1888. Cyflwynwyd Tŷ Turner i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym 1921. Ers 1950 fe'i defnyddiwyd ar gyfer arddangosfeydd dros dro, y rhan fwyaf ohonynt o gelfyddyd gyfoes Gymreig, gan gynnwys gwaith amatur. Dena tua 10,000 o ymwelwyr yn flynyddol, ac mae ei marchnad gan fwyaf yn lleol. Mae'n fychan (gofod arddangos o 163 metr sgwâr yn unig) ac nid oes iddi isadeiledd (fel storfa, gweithdai ac ati).Lleolwyd ym Mhenarth, Bro Morgannwg, ac adeiladwyd ym 1888. Cyflwynwyd Tŷ Turner i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym 1921. Ers 1950 fe'i defnyddiwyd ar gyfer arddangosfeydd dros dro, y rhan fwyaf ohonynt o gelfyddyd gyfoes Gymreig, gan gynnwys gwaith amatur. Dena tua 10,000 o ymwelwyr yn flynyddol, ac mae ei marchnad gan fwyaf yn lleol. Mae'n fychan (gofod arddangos o 163 metr sgwâr yn unig) ac nid oes iddi isadeiledd (fel storfa, gweithdai ac ati).

### Amgueddfa Werin Cymru

Mae llawer o ddeunydd 'Celfyddydol', yn arbennig crefft a chelfyddydau cymwysedig (fel dillad a hen ddodrefn), yng nghasgliadau hanes cymdeithasol yr Amgueddfa Werin Cymru. Dangosir cyfran o'r rhain yn orielau'r amgueddfa ac yn yr adeiladau a ailgodwyd.

Fodd bynnag, safle allanol yw'r Amgueddfa Werin Cymru yn bennaf, a'r unig gyfleon ar gyfer arddangos lluniau yno yw safle hanesyddol Castell Sain Ffagan neu floc oriel y 1970au, ac nid yw'r naill na'r llall wedi'u hawyru.

## Dosbarthiad Daearyddol

Ychwanegir at ddarpariaeth celfyddyd 'barhaol' AOG cyn ei safleoedd yn Ne Ddwyrain Cymru gan ddarpariaeth estynedig o fenthyciadau tymor hir a thymor byr ac arddangosfeydd dros dro mewn orielau rhanbarthol a weinyddir gan gyrff eraill. Bydd dau ddatblygiad arfaethedig yn dechrau mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn.

Mae gan yr Adran Diwydiant gasgliad o gelfyddyd sy'n darlunio diwydiant. Ynghyd â deunydd o'r Adran Gelfyddyd, tynnir ar hwn gan yr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau newydd yn Abertawe, partneriaeth gyda Dinas a Chyngor Abertawe.

Yn y cyfamser, bydd cynlluniau 'peilot' newydd yn ein Rhaglen Bartneriaeth yn ceisio profi ffyrdd y gall y casgliadau, gan gynnwys celfyddyd, gael eu rhannu â darparwyr allweddol o gwmpas Cymru.

Mae'r prif orielau awdurdod lleol wedi'u lleoli yn Abertawe a Chasnewydd, y cyntaf yn cael ei gryfhau (fel yng Nghaerdydd) gan ofodau arddangos eraill. Mae Oriel Mostyn, Llandudno, Oriel 31, a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn rhedeg rhaglenni arddangos sylweddol, sydd ar adegau yn teithio Cymru a thu hwnt. Cynigia Adolygiad Orielau diweddar CCC rwydwaith o chwe oriel 'ail lefel' rhanbarthol, yn grŵp cenedlaethol o bartneriaid gydag AOCC yn darparu mynediad i gelfyddyd fodern a chyfoes.
v

### Darpariaeth gan eraill o safleoedd ledled Cymru

Dynododd yr arolwg diweddar o orielau gan David Pratley Associates a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru tua 250 o sefydliadau ledled Cymru sy'n eu hystyried eu hunain yn orielau. Fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ofodau preifat sy'n bodoli yn bennaf i werthu gwaith. Mae rhai orielau cyhoeddus yng Nghymru yn dal casgliadau, ac fel AOCC mae ganddynt gyfrifoldebau cadwraeth a dehongli. Mae eraill yn ofodau arddangos ac yn bodoli yn bennaf i weithio gydag artistiaid byw.

Yn ogystal â'r casgliadau cenedlaethol (rhai AOCC a rhai Llyfrgell Genedlaethol Cymru), y prif orielau 'casgliad'

yw Oriel Gelfyddyd Glynn Vivian, Abertawe, ac Amgueddfa ac Oriel Gelfyddyd Casnewydd (a Thŷ Tredegar), a weinyddir gan awdurdodau lleol; a Chanolfan y Celfyddydau ac Ysgol Gelfyddyd Aberystwyth, sy'n cael eu rhedeg gan Brifysgol Cymru. Mae amgueddfeydd awdurdod lleol eraill hefyd yn dal gweithiau celfyddyd, weithiau fel rhan o gasgliadau 'hanes' cyffredinol. Mae rhan o Gastell Bodelwyddan yn is-oriel i'r Oriel Bortreadau Genedlaethol yn Llundain. Ceir casgliadau pwysig o baentiadau yn eiddo yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn arbennig Castell Penrhyn.

Y prif ofodau arddangos a ariannir yn gyhoeddus yw Oriel Mostyn, Llandudno; Canolfan y Chapter, Caerdydd; Canolfan Grefft Rhuthun; Oriel 31, Y Drenewydd; Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth; ynghyd ag Academi Frenhinol y Cambrian, Conwy. Cyrff annibynnol, fel ymddiriedolaethau elusennol, sy'n berchen ar nifer o'r rhain. Maen nhw'n cwympo y tu allan i gategori 'amgueddfeydd', ond yn arwain cyflwyniad a dehongliad y celfyddydau gweledol yn eu rhanbarth.

### Addasrwydd Adeiladau sydd yn Bodoli Eisoes

Cartrefir rhai orielau mewn adeiladau sydd tua chan mlwydd oed, ac eraill mewn adeiladau sy'n dyddio o'r 1960au a'r 1970au. Mae llawer heb reolaeth amgylcheddol ddigonol ac angen eu hail-wneud. Mae pob un yn gymharol fach, ac un yn unig sydd â gofod llawr o dros 500 metr sgwâr. Fodd bynnag mae cynlluniau gan sawl un i wella'u hadnoddau, tra bod safleoedd eraill yn trafod sut i greu adnoddau newydd, fel 'Canolfan Sutherland', y cynllun i greu amgueddfa ac oriel gelfyddyd wedi'i rheoli'n lleol yn Nhyddewi, fydd yn dehongli tirlun a hanes Sir Benfro drwy Gelfyddyd, yn bennaf celfyddyd Graham Sutherland.

### Cynhwysedd Cyflawn

Tra bod gan Gymru nifer fach o orielau cyhoeddus â chasgliadau celfyddyd, nid oes un o'r rhain (gan gynnwys AOCC a LlGC) ar hyn o bryd yn gallu creu arddangosfa barhaus gynhwysfawr o gelfyddyd Cymru, yn arbennig y cyfnod modern a chyfoes. Ni allant chwaith gyflwyno ystod cyfan gwaith o Ewrop a thu hwnt.

Mae Cymru hefyd yn elwa o nifer o ofodau arddangos dros dro, y rhan fwyaf ohonynt yn ddibynnol ar ariannu CCC. Mae gan rai raglen arddangos o safon uchel. Cymharol fach serch hynny yw'r orielau hyn i gyd, ac er gwaethaf eu safon, ni allant ddarparu rhaglenni o'r un ystod a graddfa ag sydd wedi bod yn gyffredin yn y rhan fwyaf o ganolfannau rhanbarthol Lloegr, yr Alban ac Ewrop.

## Isadeiledd

Cydnabuwyd yn Rhan 1 y byddai darparu cefnogaeth i Oriel Genedlaethol benodedig a'r rhaglen Bartneriaeth yn gofyn trawsnewidiad yn isadeiledd AOCC. Mae'n werth edrych ar oblygiadau hyn.

## Canolfan Gasgliadau

Ar gost o £3 miliwn, mae AOCC wedi creu Canolfan Gasgliadau newydd ym Mharc Busnes Nantgarw. Ar hyn o bryd mae'r casgliadau diwydiannol yno, ac fel mesur dros dro, bydd rhan o'r daliadau celfyddyd yn cael ei storio yn yr adeilad.

Fodd bynnag, byddai buddsoddiad mawr i ehangu a gwella'r adnodd hwn yn galluogi datblygu Rhaglen Bartneriaeth ystyrlon. Mae adnoddau cadwraeth AOCC wedi'u gwasgaru ac angen eu diweddaru: nid oes adnoddau dadansoddol modern ar ganddo. Nid oes gan AOG ardal benodedig i ddelio â benthyciadau, boed yn dod i mewn neu yn mynd allan – a dim bae llwytho, a ystyrir yn gyffredin yn hanfodol ar gyfer symud gweithiau celfyddyd. Byddai'r Ganolfan Gasgliadau yn cynnig safle gweithredu ar gyfer rhaglen fenthyciadau ac arddangosfeydd ehangach. Byddai hefyd yn darparu gofod storio safonol ar gyfer rhan o gasgliad celfyddyd AOG yn ogystal â rhyddhau gofod yn AOC i'r isadeiledd sydd ei angen yno – megis llwytho, ymdrin, ardaloedd tramwy, gweithdai a storio.

## Staffio

Ar hyn o bryd mae gan Adran Gelfyddyd AOCC staff parhaol o dri churadur, tri churadur cynorthwyol (ar gyfer Celfyddyd Gain a Chymwysedig), tri chadwriaethwr, tri gweinyddwr a dau dechnegydd. Mae'r rhain yn gofalu am ac yn darparu mynediad i, gasgliad o 42,000 o weithiau celfyddyd, a phob blwyddyn mae'r adran yn gosod hyd at ddeuddeg o arddangosfeydd dros dro, yn darparu nifer o sgyrsiau ac achlysuron cyhoeddus, yn ateb 4,500 o ymholiadau, yn gwneud tua chant o gaffaeliadau ac yn benthyca tua 300 o luniau a gwrthrychau i arddangosfeydd dros dro yng Nghymru ac o gwmpas y byd.

## Ymchwil

Tra bod AOCC yn noddi ymchwil newydd i'r Celfyddydau, yn arbennig yn ymwneud â'i raglen arddangos (enghreifftiau diweddar yw gwaith ar ddarluniadau Augustus John, morluniau John Brett ac ar artistiaid oedd yn ffoaduriaid o wlad Belg yng Nghymru, 1914-18), ni all gynnal unrhyw waith am gyfnod ar artistiaid a chasgliadau Cymreig.

Mae sefydlu ymchwil oriel gelf yn cael ei weld yn gyffredinol fel catalog parhaol cyflawn o'r casgliad, yn cynnig eglurhad ysgolheigaidd llawn o'r gweithiau i gyd, yn ôl y categori, fel paentiadau olew neu borslen Cymreig. Nid yw AOCC wedi cynhyrchu catalogau o'r fath ers y 1950au. Nid yw chwaith ar hyn o bryd yn manteisio yn llawn ar y potensial i ddatblygu'r ystod eang o ddeunydd mwy poblogaidd o astudiaethau artist unigol (e.e. Gwen John) i ganllawiau pwnc (e.e. Paentio Argraffyddol, Serameg Cymreig) y mae ein cynulleidfa yn eu disgwyl. Cyfyngir hyd yn oed ar ymchwil arddangosfeydd oherwydd prinder amser ac adnoddau.

Gall diffyg ymchwil gael effaith wael ar bolisïau caffael AOCC. Gwneir caffaeliadau yn ymatebol wrth i luniau a gwrthrychau ddod ar y farchnad, yn hytrach na'u bod wedi'u cynllunio. Gall hyn lesteirio twf y casgliad, yn arbennig yn achos celfyddyd fodern a chyfoes.